

ECO'R WYDDFA

RHIF 275

CHWEFROR 2001

PRIS 40c

'Annette' C. D. Newydd



Bethan ac Annette efo'u siec yn Siop Teithiau Peris

Roedd Y Mynydd Gwefru yn Llanberis dan ei sang nos Fercher, Rhagfyr 20 pan lansiwyd CD un o unawdwyrio piano gorau Cymru - Annette Bryn Parri. O'r diwedd dyma gyfle i bawb gael gwerthfawrogi ei dawn fel unawdydd yn hytrach na chyfeilyddes, er mor dalentog a phoblogaidd ydyw yn y maes hwnnw hefyd. Cynorthwyo artist neu artistiaid eraill a wna fel cyfeilyddes, a rheiny fel arfer yn derbyn y clod ond - fel unawdydd - ei chymeriad a'i theimladau hi ei hun sy'n cael eu hadlewyrchu yn y darn cerddorol gan roi mwynhau pur i'r gwrndawr.

Mae yn y casgliad o ddeuddeg darn cerddorol rywbeth at ddant pawb. Dewisiadau Annette ei hun ydynt ac mae'r amrywiaeth yn ddiddorol.

Mae ei dewis o gyfansoddwyr yn amrywio o Andrew Lloyd Webber a Maurice Jarre i 'Fats' Waller a Glen Miller, ac o John Lennon a Paul McCartney i Myfyr Isaac, Caryl Parry Jones a Dafydd Iwan. Mae'r mwyafrif o'r dewisiadau yn glasuron 'modern' a chofiadwy iawn fel *Memory*; *Lara's Theme* allan o Doctor Zhivago; *Yesterday*; *Desperado*; *My Heart Will Go On* ac eraill, ond cynhwysa hefyd ddwy sy'n tynnu'n dynn ar linynnau nostalgia - *In The Mood* ac *Alligator Crawl*. Mae ei threfniadau o Pan Ddaw Yfory; Nos yng Nghaer Arianrhod; Chwarae'n Troi'n Chwerw ac Ai

Am Fod Haul Yn Machlud yn rhywbeth i'w drysori. Mae ystod eang y darnau yn adlewyrchu'n glir ddawn a gallu Annette i ymaddasu mor rhwydd i wahanol ffurfiau cerddorol. Dyma'r uchafbwynt i flynyddoedd o ymarfer cyson ar ei rhan, ynghyd ag ymrwymiad di-ysgog i'w dewis faes, heb anghofio, wrth gwrs, na fyddai'r cyfanwaith yn bosibl heb ei dawn gynhenid.

Onid yr artistiaid y bu yn cyfeilio iddynt mor gyson a ddewisodd i lansio'r CD. Cyflwynwyd y noson gan Myrddin, Arwel, Elwyn a Vivs - Hogia'r Wyddfa - ffrindiau y mae'n berffaith hapus yn eu plith. Ond fe swynwyd y gynulleidfa i gyfraniadu Siân Wyn Gibson, Glyn Borth-y-gest, Dafydd Iwan a John Eifion.

Gan fod ei thad, Ifan Bryn, yn aelod gwerthfawr o Gôr Dyffryn Peris, a lliaws o'i ffrindiau yn aelodau, braf oedd cael datganiad ganddynt hwythau, dan arweiniad Mair Huws, i gyfeiliant Hefina Jones. Cafwyd hefyd gyfraniadau llafar gan ei chyfeillion Maureen Rhys a John Ogwen. Braf hefyd oedd cyfarch cyd-gynhyrchydd a pheiranydd y ddiisg, Bryn Jones, i'r cyfarfod. Yn wir, roedd yna awyrgylch 'deuluol' a chynnes i'r noson.

Ar yr unfed awr ar ddeg y penderfynodd Annette y byddai tâl mynediad wrth y drws, a hynny er mwyn codi

CHWARTER CANRIF YR ECO

Gwelodd Eco'r Wyddfa olau dydd am y tro cyntaf union bum mlynedd ar hugain yn ôl.

Bwriadwn ddathlu hynny yn y rhifyn nesaf.

Oes yna rifyn arbennig a gofiwch?

Oes gennych chi gasgliad cyflawn o bob rhifyn?

Beth fyddwch chi yn ei ddarllen gyntaf?

Beth yw gwerth yr Eco i chi?

Rhowch wybod i ni erbyn y tro nesaf.

"Pobl Tu Ucha'r Giât" - Llyfr Newydd

Brynhawn Mercher, Ionawr 24 yng Ngwesty'r Victoria yn Llanberis, cynhaliwyd cyfarfod i lansio llyfr Rol Williams o dan y teitl 'Pobl tu ucha'r Giât' - yr hen enw gan bobl Llanberis ers talwm am drigolion Cwm Brwynog.

Llywyddwyd y cyfarfod gan Geraint Lloyd Owen ac ef a Meira Turner, Waunfawr fu'n darllen rhannau o'r llyfr. Yn ogystal caed fideo yn dangos rhannau o Gwm Brwynog a chafwyd annerchiadau gan Maldwyn Thomas a John Roberts Williams.

Cyhoeddir y llyfr, sydd yn sôn am hen deuluoedd Waun Cwm Brwynog, gan Wasg Pantycelyn, Caernarfon a'i bris yw £6.

Ceir pennod yn ogystal yn cofnodi peth o hanes Capel Hebron a fu'n ganolfan grefyddol, gymdeithasol a diwylliannol i'r gymuned am rai blynyddoedd, ac fel y dangoswyd ar y fideo, chwith yw gweld yr hen gapel a'r tŷ capel yn ei gyflwr presennol, o gofio aberth yr hen deuluoedd i'w adeiladu.


Ffrwyth ymchwil tair blynedd yw'r gyfrol a cheir

ynddi hanesion difyr dros ben ac amryw o luniau o rai o'r cymeriadau fu'n byw yn y mân dyddynnod yn y ganrif o'r blaen.

Yn bresennol yn y cyfarfod yn y gwesty yr oedd Robert Wynne Owen, yn awr o Gricieth, un a fagwyd yn y Foty - ei dad oedd yr amaethwr andabyddus Ellis (Owen) y Foty i bawb yn yr ardal. Fe symudodd y teulu i'r Cwrt Isaf, Cwm Pennant pan oedd Robert Wynne ond plentyn bach, ac er bod y Foty wedi bod yn wag ers blynyddoedd, mae sôn fod posibiladau y gwelir mwg yn dod drwy'r corn unwaith eto yn dilyn yr atgyweiriadau sydd yn mynd ymlaen yno.

Pleser hefyd oedd croesawu Priscilla Williams o Gallt y Foel - hi a'i theulu wedi bod yn ofalwyr Tŷ Capel Hebron am gyfnod, a chanddi hanesion lu, sydd wedi eu cofnodi yn y llyfr, am y cyfnod hwnnw.

Gan na chafwyd cymorthdal gan Gyngor Llyfrau Cymru i gyhoeddi'r llyfr, o reidrwydd, nifer cyfyngedig sydd wedi ei argraffu, a gellir cael copïau un ai gan yr awdur neu yn y siopau lleol.



Geraint Lloyd Owen, Rol Williams a Maldwyn Thomas

arian at achos sydd yn agos at ei chalon - Ward Alaw Ysbyty Gwynedd. Daeth Dr Nick Stewart, Prif Oncolegydd Ysbyty Gwynedd draw i'r lansio a hynny ar waetha'r ffaith fod ei wraig yn dathlu ei phen-blwydd! Yno hefyd yr oedd Caroline Hughes Roberts,

Cadeiryddes Uned Codi Arian Ward Alaw ynghyd â Lliwen Griffiths ac Eirlys Glyn Jones, aelodau o'r un pwyllgor.

Drwy haelioni Banc HSBC a gyfrannodd £50, a Chwmni Recordiau Sain a gyfrannodd yr un swm, llwyddwyd i gasglu cyfanswm o £618.23 at yr achos.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 275
CHWEFROR**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

E-bost: ecorwyddfa@AOL.com

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS LUN, CHWEFROR 19
Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 1

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Mawrth Ebrill Mai Mehefin Gorffennaf Awst Medi Hydref Tachwedd Rhagfyr	Chwefror 19 Mawrth 19 Ebrill 16 Mai 21 Mehefin 18 Awst 27 Medi 17 Hydref 22 Tachwedd 19	Mawrth 1 Mawrth 29 Ebrill 26 Mai 31 Mehefin 28 Medi 6 Medi 27 Tachwedd 1 Tachwedd 29	Llanrug Cwm-y-glo Deiniolen Brynrefail Bethel Dinorwig Penisarwaun Llanberis Caeathro	Mr Eifion Roberts Mrs Iris Rowlands Mr W O Williams Mrs Dilys W Morris Mr Geraint Elis Miss Marian Jones Mrs Ann Evans Mr Gwilym Evans Mr Clive James

Llythyrau

Sycharth
Penisarwaun

Annwyl Ffrindiau,
Dymunaf ddiolch i bawb am
bob arwydd o garedigrwydd a
chyfeillgarwch yn ystod amser
pryderus i'r teulu a minnau yn
dilyn cyfnod yn Ysbyty Walton,
Lerpwl ac Ysbyty Gwynedd
Bangor. Roedd pob cerdyn,
galwad ffôn, ymweliad a rhodd
o gysur mawr.

Yn ddiffuant
Ann Ifans

Annwyl Gyfaill

Dyddiaduron Y Lolfa

Ysgrifennaf i'ch hysbysu fod
dyddiaduron a ffeiloffaith Y
Lolfa ar waith ar hyn o bryd a
bod y dyddiad diwethaf i osod
unrhyw newiadau neu
ychwanegiadau i'r cyfeiriadur
ynddynt yn prysur agosáu. Er
mwyn i'r dyddiaduron fod mor
gywir a chyflawn â phosib ac
iddynt gael eu cyhoeddi mewn
da bryd, rhaid i unrhyw
wybodaeth newydd neu
gywiriadau gyrraedd Y Lolfa
cyn 1 Mawrth, 2001.

Gwahoddwn unrhyw
wybodaeth am sefydliadau,
cwmnïau a chymdeithasau i'w
ychwanegu yn rhad ac am ddim
i restr cyfeiriadau mwyaf
poblogaidd Cymru sydd,
bellach, ar gael ar safle Gwe
newydd sbon Y Lolfa yn
ogystal, www.ylolf.com. Dylid
anfon unrhyw wybodaeth
berthnasol i'w cynnwys yng

nghyfeiriadur y dyddiaduron
ataf fi yn y cyfeiriad isod, neu
anfon e-bost at dyddiaduron@ylolfa.com.

Mared Roberts. Golygydd
Y Lolfa
Talybont
Ceredigion SY24 5AP

Taith i Lydaw

Pe bai unrhyw un yng nghylch
yr Eco yn awyddus i ymuno â
gwibdaith i Lydaw adeg y Pasg,
dylid cysylltu â Helen Gwyn,
Dwylan, Ffordd Bangor,
Caernarfon (Ffôn: 01286
674070).

Bydd y bws yn gadael
Caernarfon tua 6 o'r gloch fore
Iau, 12 Ebrill ar gyfer Plymouth
a'r cwch. Wedyn ymlaen i
efeilldref Caernarfon, sef
Landerne, nid nepell o'r fferi.
Byddant yn ôl yng
Nghaernarfon tua 2 o'r gloch y
bore, Ebrill 16. Y gost y pen
fydd tua £100.

APÊL

Dros y blynyddoedd mae
golygyddion yr Eco wedi
llwyddo i gynnwys deunydd
sydd wedi cyrraedd atynt rai
dyddiau ar ôl y dyddiad cau
swyddogol. Ond mae peth
newid ym mhattrwm cysodi'r
papur yn golygu y byddwn yn
gorfod glynu'n fwy caeth at y
dyddiad cau o hyn ymlaen.
Mae'r papur yn cael ei osod ar
y nos Wener cyn iddo ddod o'r
Wasg, a bydd angen i bopeth
fod wedi ei gysodi erbyn
hynny. Y ffordd orau i sicrhau
bod stori neu newyddion yn
cael ei gynnwys mewn pryd
fydd cadw at y dyddiad a welir
ar waelod tudalen 2 bob mis.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensynwyr, myfyrwyr a
phlant ysgol




Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar
gyfer priodasau, dathliadau,
bedydd, pen-blwydd a phob
achlysur arbennig arall.
Gallwn drefnu adloniant -
disgo a.y.y.b.

Bwrdd Pwl ar gael
Bwydlen Bar a Restaurant
Trwydded lawn tŷ tafarn.

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR. . .



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

Ffôn: (01286) 675175 a 677858

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug



Priscilla Williams, gynt o Dy Capel Hebron, yr Awdur a Robert Wynne Owen, gynt o Foty.



Dafydd Iwan ac Annette



RYGARUG
YN CAPEL MAWR



DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'

TEGANAU, CARDIAU

MELYSION

ANRHEGION



Bara Ffres

Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati



BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CHWILOTA

GWYBODAETH AM LWYN COGAU - O LANGEFNI



Er gwaethaf y gwyliu, (neu oherwydd y gwyliu!) bu nifer o selogion y golofn yn gohebu â mi, a chefais sawl galwad ffôn. Bum innau gyda'r bwriad o fusnesa tipyn o amgylch ardal Llwyn Cogau, ond yn anffodus mae amser yn brinnach na phrin i greadur sydd wedi ymddeol. Gobeithio y caf gyfle yn ystod yr wythnosau nesaf os deil y tywydd heb fod yn rhy wlyb.

Gan Ifan Wyn Williams o Langefni (gynt o Frynrefail) y daeth y wybodaeth ddaearyddol fanylaf ynglyn â ffos melin yng nghyffiniau Llwyn Cogau. Mae'n sôn fel y byddai hogia' ardal Brynrefail yn chwarae llawer yn y cyffiniau, ac mae'n cofio'r ffos : "yn un eitha' dofn; yn annaturiol felly. Mae'n debyg mai wedi ei chafnio yr oedd hi i ddŵr redeg o gors Rhydu Duon. Ni chlywsom ni erioed am Felin Llwyn Cogau nac am gae Ffos y Felin. I lawr i gyfeiriad Rhydu Duon, tua'r gorllewin yw rhediad naturiol y dŵr o'r gors. Nid wy'n credu fod dafn o ddŵr yn rhedeg ohoni i'r Galedffrwd, sydd ond lled cae neu ddau o derfyn dwyreiniol y gors."

Dyna daro felly, y syniad mai ar afon Galedffrwd yr oedd y felin. Tybed a oedd y ffos yn draenio'r corsydd ac yn cario dŵr i Felin Brynrefail?


O edrych ar un o fapiau cynnar yr O.S. mae'n ymddangos fod hynny'n anhebygol. Mae ffos neu ffrwd wedi ei lliwio'n las ar y map, ond mae'n ymddangos fel pe bai'n tarddu yn y creigiau i'r dwyrain o Rydu Duon ac yn llifo tua'r gogledd i afon

Galedffrwd. Hon yn ôl pob tebyg a elwid yn "ffos y felin" ar un o gaeau Llwyn Cogau. Rhaid oedd chwilota ymhellach yn ôl i'r gorffennol.

Mae mapiau arolwg o Stad y Faenol i'w cael wedi eu rhwymo mewn cyfrolau anferth. Mae un gyfrol drwchus yn cynnwys holl diroedd y Stad ym mhlwyf Llanddeiniolen - dyddiedig 1869. O astudio enwau'r caeau yn y gyfrol honno, a dilyn y ffrydiau a'r ffosydd o un tyddyn i'r llall, mae'n bosibl cadarnhau mai i'r de a'r de-orllewin roedd y dŵr yn ffos Llwyn Cogau yn llifo; hynny yw, o'r Galedffrwd (islaw i Fryn Derw bach) drwy dir Llwyn Cogau ac ymlaen heibio'i Ben y Clegir am Rydu Duon cyn troi tua'r gorllewin i Lyn y Felin ger Brynrefail. Does ryfedd fod y cof amdani fel ffos annaturiol o ddofn : roedd angen iddi fod felly.

Yn od iawn, er bod y ffos yn llifo drwy gaeau nifer o fân dyddynod yn yr ardal, dim ond yn Llwyn Cogau mae'n cael ei henwi fel "ffos y felin".

Mae'r map yn dangos caeau Llwyn Cogau fel ag yr oeddynt yn 1869, a llwybr y ffos o'r Galedffrwd i Lyn y Felin.



Caeau Llwyn Cogau yn ôl Map Arolwg Stad y Faenol 1869.

1. Cae Main 2. Commis, 3. Cae'r allt, 4. Cae bach, 5. Werglodd isaf, 6. Clwt ffoes y felin, 7. Cae pant, 8. House, croft and road, 9. Cae Llwybr mawr, 10. Yr ochr fawr, 11. Gors.

Mae Ifan Wyn Williams yn cyfeirio hefyd at y ffaith fod O.M. Edwards yn sôn am Llwyn Cogau yn un o'i lyfrau taith wedi iddo gerdded y llwybr drwy'r creigiau o Glwt-y-Bont i Frynrefail. "Mae wedi dotio at hyfrydwch y fro, ac at enw Llwyn Cogau. Mae'n gofyn tybed ai am fod y cogau yn dod yn aml i goeden griafol neu gelyn gerllaw y rhoddwyd yr enw ar y lle?"

Noda hefyd mai gŵr o'r enw Richard Jones oedd yn byw yn Llwyn Cogau bryd hynny.

O Langefni hefyd y daeth yr ail lythyr ynglŷn â Llwyn Cogau; y tro hwn gan Owen Jones, yn cyfeirio at y ffaith fod ei deulu yng nghyfraith wedi bod yn byw yno. Daeth Robert Mathew Thomas a'i wraig, Elisabeth Ellen, yno i fyw tua 1906, ac roedd cysylltiad rhyngddynt â thenantiaid blaenorol y tyddyn, sef William a Catherine Evans. Mab i Robert Mathew oedd Griffith Robert Thomas a oedd yn dad i'r diweddar Hugh Thomas Cae'r Bledwyn a'i chwaer, Grace (sef gwraig Owen Jones). Fel hyn yr adroddir yr hanes am Griffith Robert pan yn fachgen yn Llwyn Cogau : "Gweithiai fel 'tea boy' yn Felin Sam. Roedd yn gwneud hynny cyn mynd i'r ysgol yng Nghlwt y Bont. Ni dderbyniai gyflog am y gwaith, ond byddai'r gweithwyr yn rhoi rhyw ddimai yr un iddo ar ddiwedd wythnos. Ei ddyletswyddau oedd berwi dŵr, gwneud tê, ac yna'i ddosbarthu i'r gweithwyr. Cerddai'n gynnar yn y bore o Llwyn Cogau i'r Felin er mwyn gorffen ei orchwylion mewn da o bryd cyn mynd i'r ysgol."

Mae Owen Jones hefyd yn cyfeirio at nifer o felinau ar y Galedffrwd - a'u hanes wedi ei gofnodi yn y llyfr Gwaun Gynfi, ond does dim sôn yno 'chwaith am unrhyw felin yn Llwyn Cogau; ac erbyn hyn, gwyddom ninnau pam hynny.

Cymry America.

O Frynrefail, gan Mrs Eirianwen Evans, y daeth ateb i'r ymholiad ynglŷn â Mrs Elisabeth Evans a ymddangosodd ar y rhaglen deledu "Welsh in New York". Mae Elisabeth Evans sydd bellach yn 92 oed, yn enedigol o Frynrefail, ac yn gyfnither i'r diweddar William Evans, 1 Ffrwd Madog (tad Mrs Eirianwen Evans). Ymfudodd y teulu, tair merch a mab, i Vermont yn y 1920'au. Mae'r ddwy Mrs Evans yn parhau mewn cysylltiad, ac mewn llythyr o Vermont cyn y Nadolig, eglurodd sut y gallai 'gerdded' trwy'r darlun o bentref Brynrefail yn ei meddwl, a chyfarch y bobl oedd yn byw yno ers talwm. Roedd yn anfon cyfarchion arbennig at Miss Blodwen Owen, 2 Orwig Terrace, oedd yn cyd-oesi â hi yn eu plentyndod.

Roedd y teulu'n dod yn wreiddiol o'r Fron Gader, tyddyn yn y creigiau rhwng Brynrefail, Clwt-y-bont a'r Fachwen. Yno y ganwyd y brodyr Ellis Evans, (tad Elisabeth), a John Evans, (tad Eirianwen).

O Rhuthun y daeth yr ail gais am wybodaeth, a hynny gan Iwan Hughes. Mae'n chwilio am gofnod geni William K. Thomas neu William T. Williams - yr un person yw'r ddau. Ymfudodd i'r America a bu'n gweithio mewn ardaloedd gwahanol cyn setlo yn Fair Haven, Vermont am y ddwy flynedd ar bymtheg olaf o'i oes. Mae cofnod byr am ei farwolaeth yn Y Drych ac yn Yr Herald Cymraeg: "William K. Thomas - ar ôl dioddef cystudd am 6 blynedd. Gwendid yn madruddyn y cefn oedd ei anhwylydeb. Roedd yn enedigol o yn agos i Lanrug, Gogledd Cymru. Daeth i ardal Vermont 17 mlynedd yn ôl. Cartrefai gyda'i ferch a'i fab yng nghyfraith, Mr a Mrs William W. Parry." Bu farw ar Awst 24ain 1885 yn 63 mlwydd oed. Hyd yn hyn methais â chael cofnod bedydd yng nghofrestrau plwyf Llanrug sy'n cyd-fynd â'r dyddiadau uchod.

Os oes unrhyw ddarlennydd â gwybodaeth am William (Thomas neu Williams), yna cysylltwch â mi.

Enwau Dinorwig.

Gan Mrs Betty Evans, Penisarwaen y daeth galwad am ardal Dinorwig. Mae lleoliad Rhwng y ddwyffordd yn parhau'n ddirgelwch, ond hola Mrs Evans a oes gan rywun wybodaeth am siop Miss Catrin ym Mhendraw Dinorwig. Credai fod Miss Catrin yn byw yn y Tŷ Capel, a'i bod yn tyfu eirin yn ei gardd i wneud jam.

Y Chwaraedy Cenedlaethol Cymreig.

Mae Huw Roberts, Pwllheli, un arall o ffyddloniaid y golofn, yn ymateb i nifer o destunau dros y rhifynnau diwethaf. Mae'n cofio ymweld ag Arddangosfa Fawr 1951 yn Battersea Park, Llundain gydag athrawon a phlant Ysgol Botwnnog, ond ni chofia weld neb yno'n hollti a naddu llechi. Er hynny, mae ganddo gof o'i frawd, Dafydd "oedd yn adnabyddus i bawb fel Dafydd Taff, ac un arall tua'r un oed, fynd i naddu a hollti llechi yn y Great Exhibition yn Llundain tua canol y tridegau."

Mae crynswth ei lythyr yn son am gysylltiadau ym myd y ddrama. Roedd Huw Roberts yn yr un dosbarth ag Isobel Rogers, "yr adroddwraig benigamp", ac yn ei chofio yn mynd at Gwmni Theatr Cenedlaethol tua 1937. "Yr Arglwydd Howard de Walden a ddaeth i Gastell y Waun a fu'n parhad ar dudalen 8

Un funud fach ...

GUJARAT

Wedi gweld y lluniau o'r ddaergryn a drawodd Canolbarth America yn gynharach yn y mis roedd yn anodd dychmygu gwaeth. Ond yna clywsom am Gujarat yn yr India. Talaith o faint Cymru wedi ei tharo a hyd at gan mil o bobl wedi marw yn y ddaergryn ddiweddaraf hon.

Mae'n anodd dychmygu'r fath ddioddefaint. Ac mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud na'i wneud. Mae'n rhaid edmygu dewrder y bobl yn wyneb y fath anawsterau; gallwn ddiolch am barodrwydd y rhai sydd wedi brysio yno i geisio achub bywydau o'r rwbel; gallwn gyfrannu arian a fydd yn prynu bwyd a dillad a chymorth brys i'r dioddefwyr; gallwn gydymdeimlo â hwy, a gweddio drostynt a thros bawb sy'n ceisio eu cysuro a'u helpu. A thrwy'r cwbl teimlwn mor ddiymadferth.

Mae'r fath drasiedi yn ein difrifoli. Adeiladau yn bentwr o rwbel? Trefi cyfan wedi eu llorio? Can mil o bobl wedi eu lladd ar amrantiad? Sut ar wyneb daear y mae amddiffyn poblogaeth gyfan rhag y fath alanast? Bydd gwyddonwyr, gwleidyddion a chynllunwyr yn gorfod ymgodymu â'r cwestiynau hyn o'r newydd wedi'r hyn a ddigwyddodd yn yr India.

Gwaetha'r modd mae daeargrynfau yn rhan o batrwm pethau yn y byd hwn. Fe ddywedodd Iesu Grist hynny wrthym. Byd amherffaith ydyw, a daeargrynfau yn rhan ohono. Nid yw hynny'n gysur i'r rhai sy'n dioddef wrth gwrs, ond fe ddylai wneud i ni ddiolch am gael ein cadw rhag y fath erchylltra. Ac fe ddylai'r diolch hwnnw ddyfnhau ein cydymdeimlad â phobl yr India a chryfhau ein hawydd i'w cynorthwyo.

Ond wrth drafod trasiediau fe ychwanegodd Iesu Grist ei hun rywbeth arall hefyd. Rhywbeth y byddai llawer wedi ei gyhuddo o fod yn ansensitif iawn wrth ei grybwyll. Soniodd am rywbeth gwaeth na thrasiediau mwya'r byd hwn. Darllenwch ei eiriau yn Luc 13: 1-5 drosoch eich hunain.

JOHN PRITCHARD

Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r cyngor nos Iau, 18fed o fis Ionawr yn "Angorfa" gyda'r Cynghorydd Dei Tomos yn y gadair.

Ni dderbyniwyd unrhyw enwebiadau am y seddi gwag ar Ward Padarn (Llanberis), a dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwasanaethu ei gymuned ar y cyngor lleol gysylltu unai â'r Clerc neu ag unrhyw aelod o'r Cyngor.

Trafodwyd telerau lês "Angorfa". Mae'r Cyngor ers peth amser wedi bod yn ystyried sefyllfa Amgueddfa T. Rowland Hughes sydd wedi ei lleoli ar lawr uchaf yr adeilad. Prin yw'r ymwelwyr â'r amgueddfa, yn rhannol oherwydd fod angen gwneud trefniadau ymlaen llaw i gael mynediad i'r adeilad. Byddai lleoliad mwy addas yn hwyluso mynediad i'r cyhoedd, ac mewn safle o'r fath byddai gwrthrych yr arddangosfa yn cael mwy o barch a sylw. Byddai aelodau o'r cyhoedd hefyd yn cael cyfleoedd gwell i ddod yn ymwybodol o fywyd a gwaith T. Rowland Hughes. Ond pe byddai'r Cyngor Cymuned yn argymhell i'r amgueddfa gael ei hail-leoli, yna, yn ôl telerau'r lês, gallai Cyngor Gwynedd godi rhent masnachol ar yr adeilad. Byddai rhent masnachol yn debygol o fod yn ormod o faich ariannol ar y Cyngor, ac felly byddai'n rhaid ystyried peidio â defnyddio "Angorfa" fel canolfan i wahanol gymdeithasau gyfarfod. Ar hyn o bryd ychydig o gymdeithasau'r pentref sy'n defnyddio'r adeilad, ond pe byddai mwy o ddefnydd ohono, yna gallai'r incwm fod o gymorth i'w gadw ar agor - pa faint bynnag fyddai'r gost i'r Cyngor. Apeliwyd ar i fwy o gymdeithasau'r pentref ystyried cynnal eu cyfarfodydd yn "Angorfa".

Sefydlwyd panel o dri i ystyried y posibilrwydd o gyflogi 'warden' pentref i wneud mân welliannau a gwaith tacluso o amgylch y pentref.

Ystyriwyd dau gais cynllunio, ac nid oedd gwrthwynebiad i godi 'porch' yn 3 Coed y Ddôl, Llanberis nac i estyniad a gwaith adnewyddu yn Pant y Fron, Nant Peris.

Mae rhybuddion a chopiau o reolau'r fynwent eisoes ar gael yn y Llythyrdy, y Llyfrgell, Becws Eryri ac yn Nhafarn Ty'n

WAUNFAWR
Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

YSGOL FEITHRIN. Oherwydd y nifer cynyddol o blant sy'n mynychu'r Ysgol Feithrin, rydym yn chwilio am roddion o feiciau, tractorau, a.y.y.b. sydd mewn cyflwr da. Os gallwch ein helpu, cysylltwch â Nia ar (01286) 650092. Diolch yn fawr iawn am eich cymorth.

LLONGYFARCHIADAU a phob dymuniad da i Anwen Rhys, Llwyn Afon ar ei dyweddïad â Dylan Haliday o'r Groeslon.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu Eira Roberts, Llwyn Celyn yn dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 40 oed. Dymuna ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y dymuniadau da, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur. Anfonwn ninnau ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau da iti, Eira.

Bu Mr Richard Owen, Stad Bro Waun yn dathlu cyrraedd ei 80 mlwydd. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chithau.

AR DAITH. Dymunwn yn dda i Elin Evans, Arfryn sydd wedi gadael y Waun i deithio o amgylch Awstralia am gyfnod o chwe mis.

TELEDU. Mae'n debyg bod yn agos i bob teledu yn y pentref wedi bod ymlaen nos Iau diwethaf.

Pawb yn gwylio'r rhaglen ar weithgareddau'r grŵp Big Leaves dros gyfnod o amser. Dymuniadau gorau ichi i'r dyfodol, hogiau.

LLONGYFARCHIADAU i blant y ddwy ysgol Sul ar eu perfformiadau o ddrama'r Nadolig - mae'r rhai bach wrth eu bodd yn cael gwisgo fel sêr, angylion a chast golygfa'r preseb.

Mae llun o blant bach yr Ysgol Feithrin yn cyflwyno eu dehongliad hwy o ddrama Nadolig fel rhan o gyngerdd Nadolig y pentref. Bu holl blant yr Ysgol Gynradd hefyd yn gwneud eu rhan yn arbennig o dda. Diolch iddynt i gyd ac i gôr y pentref a gymerodd ran.

DYMUNO GELLHAD. Dymunwn wellhad i Mr Richard Charge, Llifon sydd wedi bod yn yr ysbty yn ddiweddar.

Anfonwn ein cofion at Mrs Stansfield sydd wedi mynd i aros i Gartref Preswyl ym Mae Colwyn.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys â Mr King, Ger y Nant yn ei brofedigaeth o golli chwaer.

DIOLCH. Dymunwn ddiolch i Brifathro, Staff a disgyblion Ysgol Uwchradd Brynrefail am roi eu hamser i blygu rhifyn Nadolig o'r Eco.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

Llan, Nant Peris. Mae angen anfon unrhyw sylwadau yn ysgrifenedig i'r Clerc erbyn 14eg o fis Chwefror. Cytunwyd ar gontact newydd i dorri gwair a thacluso'r fynwent am y flwyddyn ariannol nesaf.

Bydd y Cyngor yn cysylltu â Chyngor Gwynedd ynglŷn â chyflwr y llwybr cyhoeddus sy'n arwain at Bont y Meibion, Nant Peris gan fod lli'r afon yn erydu'r torlannau'n ddrwg.

Ystyriwyd nifer helaeth o geisiadau am gymorth ariannol gan y Cyngor, a chytunwyd i gyfrannu i'r mudiadau a'r cymdeithasau canlynol:

RYGARUG, Llanberis Colts, Llanberis Blacks, Llanberis Blues, Llanberis Brownies, Llanberis Rainbow, Cronfa Goffa R.H.Owen, Cylch Meithrin Llanberis, Clwb Pêldroed Llanberis, Ymddiriedolaeth Hawliau Llës Anabledd, Alzheimer's Gogledd-orllewin Cymru, Shelter Cymru, Cynllun Cynnal Dioddefwyr, Theatr

Bara Caws, Bobath Cymru, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Caerdydd, Swimathon, Carers Outreach, Spina Bifida, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Dinbych, CAB, Cymdeithas y Byddar a Disabled Drivers Association, Gwynedd.

Cafwyd trafodaeth fanwl hefyd ar ofynion ariannol y Cyngor am y flwyddyn i ddod, a chytunwyd ar y Briseb ar gyfer 2001-2002.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn "Angorfa", nos Iau, 15fed o fis Chwefror am 7.00 o'r gloch.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

**21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY**
Ffôn: (01248) 714043
neu **Caernarfon**
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc



WIL G. ROBERTS
Bod Gwilym, Cwm-y-glo

YN YR ARDD!

Ffôn: (01286) 87064

GWASANAETH PENIGAMP AM BRIS RHESYMBOL

OSMOND SHAW DEINIOLEN

**GWERTHU
- TRWSIO**

TELEDU

FIDEO

OFFER TRYDAN

Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

O SIAMBAR SELWYN

Rwy'n sgwennu'r nodiadau hyn ar y trydydd o Ionawr – wythnos dechrau'r flwyddyn – a'r wythnos pryd yr arferid cynnal cyfarfodydd gweddi ym mhob pentre. Mae'r arferiad yn parhau mewn rhai mannau, ond nid yn nosweithiol fel yn yr hen ddyddiau.

Heno, ym Mhenisarwaun mi fydd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn cyfarfod, ac fe agorir y gweithgareddau â gweddi. Mae amryw wedi gofyn i mi pryd y dechreuodd yr arferiad hwn.

Dyma gofnod o Gyngor Plwy Llanddeiniolen a gynhaliwyd yn y Llyfrgell, Deiniolen ar Fai 24, 1965 (ar ddiwedd y cyfarfod):

"Terfynwyd y Cyngor drwy i'r Parchedig E.T. Jones (Ficer Llandinorwig) offrymu gweddi ar ran y glöwyr a'u teuluoedd, yn dilyn y ddamwain erchyll a ddigwyddodd yn ystod y dydd yng Nglofa Cambrian ger Tonypandy. Safodd yr holl aelodau mewn cydymdeimlad â'r teuluoedd yn awr eu galar, a phenderfynwyd i ddechrau pob cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol drwy weddi."

Mi wn fod y Senedd a Chyngor Gwynedd yn dechrau drwy weddi, ac mi fyddai yr hen Gyngor Gwyrfa'i yn gwneud hynny hefyd.

Ys gwn i faint o Gyngorau Cymuned Bro'r Eco sy'n dechrau eu cyfarfodydd drwy offrymu gweddi?

Sgwennu'r holl gofnodion fyddwn i ar y dechrau, fel a wnaed gan cyn-glercod y Cyngor. (Hyd y gwela i, dim ond rhyw bump Clerc sy' wedi gwasanaethu'r Cyngor ers ei sefydlu yn 1894.) Sgwennu'r holl lythyrau fyddwn i hefyd – doedd 'na ddim teipiadur ym meddiant y Cyngor pan ddechreuais i ar y gwaith yn 1955. Ar achlysur dathlu canmlwyddiant y Cyngor yn 1994 fe brynodd y Cyngor bresant iddo'i hun – sef prosesydd geiriau a llungopiwr

– a diolch amdany'n nhw.

Cofiwch chi roedd y Cyngor wedi sylweddoli ei bod hi'n angenrheidiol i'r Clerc gael teliffon mor bell yn ôl â 1962. Dyma'r cofnod yng Ngorffennaf 16, 1962:

"Awgrymodd nifer o'r aelodau mai buddiol fyddai i'r Clerc gael teliffon yn ei gartref, gan y byddai hyn yn fanteisiol iawn i'r Cyngorwyr a'r cyhoedd ddod i gysylltiad ag ef. Cytunwyd i'r clerch wneud ymholiadau."

Yn y cyfarfod dilynol ar Fedi 10, 1962:

"Yn unol â phenderfyniad y Cyfarfod blaenorol – i'r Clerc wneud ymholiadau ynglŷn â'r gôst o gael telephone, eglurodd y clerch mai £10 fyddai'r gôst o'i osod, ynghyd â £3 y chwarter o rent. Roedd y Cyngor yn unfrydol y byddai'r cyfryw yn hwylustod iddynt, a phenderfynwyd i'r clerch symud ymlaen i sicrhau cael ffôn."

Cofnod diddorol ydi un dan y pennawd Ysmygu - Mawrth 19, 1962:

"Awgrymodd Mr Ellis Jordan, Bethel (sy'n dal ar dir y byw yn Llanfairfechan. Fo oedd y Cadeirydd pan apwyntiwyd fi i'r swydd) y dylai'r Cyngor ddileu ysmygu yn eu cyfarfodydd. Cafwyd gwelliant – sef fod hawl i'w gael i ysmygu pibell. Yr oedd Hugh Parry Rhiwlas yn bendant o'r farn y dylai pawb a oedd yn rowlio ei sigarêts ei hun gael mwynhau smôc yn ystod cyfarfodydd y Cyngor. Wedi trafodaeth a phawb yn cydymdeimlao â phenbleth y Cadeirydd, daeth y mater 'llosgawl' hwn i ben heb iddo gael ei 'ddiffodd' na'i 'danio'."

Oedd, roedd 'na hwyl i'w gael yng nghyfarfodydd y Cyngor flynyddoedd yn ôl, pan oedd yr aelodau yn cerdded i'r Cyngor drwy bob tywydd ar ôl diwrnod caled o waith yn chwareli Dinorwig a'r Penrhyn.

Doedd fiw i neb falu awyr yn y cyfarfodydd hynny, ac o dreulio blynyddoedd yng nghwmni y chwarelwyr diwylliedig hyn, cefais brofiad

amhrisiadwy.

Cynhaliwyd cyfarfod cynta Cyngor Plwy Llanddeiniolen yn Hen Ysgol Tanycoed Penisarwaun ar Ionawr 3, 1895, pryd y gwnaed y penderfyniad pwysig:

"Bod holl weithrediadau Cyngor Plwy Llanddeiniolen i'w hysgrifennu a'u trafod yn yr iaith Gymraeg."

Penderfynwyd hefyd:

1. Fod yn rhaid i aelod pan yn siarad – sefyll a chyfarfod y Cadeirydd;
2. Bydd yn ofynnol i Aelod pan yn siarad, gyfyngu ei sylwadau yn llwyr i'r mater dan sylw;
3. Ni chaniateir i Aelod annerch y Cyngor ar unrhyw fater fwy na dwywaith, heb ganiatâd y Cadeirydd.

Yn anffodus, mae 'na rai o'r rheolau wedi mynd yn angof ond mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn dechrau pob cyfarfod â gweddi a does 'na neb yn smocio yn ein cyfarfodydd.

Yn ôl yr hysbysebion sy'n ymddangos yn wythnosol bron

yn y Wasg, dydi'r swydd o fod yn Glerc i Gyngor Cymuned ddim yn swydd ddelfrydol iawn. Does 'na fawr neb yn aros yn y swydd am gyfnod hir y dyddiau hyn. Pam tybed?

Pwy bynnag fydd fy olynydd i yma yn Llanddeiniolen, fe garwn i ei weld o, neu hi, yn cael gras ac amynedd i roddi blynyddoedd o wasanaeth i'r plwy.

Ddaw neb i adnabod plwy mor fawr a gwasgarog â Llanddeiniolen mewn blwyddyn neu ddwy. Os oes 'na rywun â diddordeb ganddo mewn gweinyddu un o'r plwyfi gwledig mwyaf yng Ngwynedd, ac y carai sgwrs (gwbl anffurfiol) ynglŷn â gofynion y swydd, mae croeso i chi gysylltu â mi (Ffôn 870095).

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

**Peidiwch a GORI
ar STORI –
Anfonwch hi i'r ECO**

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc – allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

SNOWDONIA PARK WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch – 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

CROESO ADREF i Mrs Ann Evans, Sycharth, wedi iddi fod yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Walton ddechrau'r flwyddyn. Rydym yn falch o glywed ei bod yn well, ac anfonwn ein cofion gorau ati. Wedi dod adref mae wedi llwyddo i gasglu'r newyddion ar gyfer y golofn hon, a diolchwn iddi am hynny. Erbyn y rhifyn nesaf gobeithio bydd rhywun arall o Benisarwaun yn barod i ymateb i'r cais isod am gymorth.

URDD ADRAN BENTREF. Ionawr 17 cafwyd orig ddifys tu hwnt yng nghwmni'r arlunydd Islwyn Williams. Bu'n dangos i'r aelodau sut i wneud portread a chafodd pawb hwyl wedyn yn tynnu llun ei gilydd a hynny'n llwyddiannus iawn.

Ionawr 24 daeth Kevin a Bronwen Jones i ddiddori'r criw gyda gweithgareddau 'Origami' a chafwyd amser hwyliog dros ben. CYDYMDEIMLIR yn ddwys iawn â Mrs Blodwen Mowll a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl i Mrs Mowll.

GWELLHAD. Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n sâl ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn. Mae'r Gwanwyn ar y ffordd - rhywbeth i edrych ymlaen ato ar ôl gaeaf mor gyfnewidiol.

Anfonir cyfarchion arbennig i Ron Hughes ac Ann Ifans ar ôl eu triniaethau yn yr ysbyty.

DIOLCH. Dymuna Mrs Annie Hughes, Cae Hywel Isaf, ddiolch o galon i'r plant, y teulu a holl ffrindiau ac Aelodau Eglwys Santes Helen am y caredigrwydd tuag ati tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Yr un modd dymuna Ron Hughes ddiolch o galon i Bronwen, Kevin a'r hogia, y teulu oll a chymdogion am eu gofal wedi'i anhwylder yn ddiweddar.

Gyda diolch diffuant dymuna Ann Ifans ddiolch o waelod calon i Dafydd, Eurgain, Bedwyr ac Osian, y teulu, cymdogion a ffrindiau lu am y toreth o gardiau, galwadau ffôn, ymweliadau, 'gardd' o flodau hardd a'r rhoddion arbennig wedi'i thriniaeth yn Ysbyty Walton Lerpwl. Bu hyn o gysur mawr i bawb o'r teulu.

Dymuna Blodwen, Ken Mowll

a'r teulu ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o gydymiad a ddangoswyd tuag atynt yn dilyn eu profedigaeth o golli chwaer. Diolch yn fawr.

YSGOLION SUL. Dymuna aelodau Ysgol Sul Eglwys Santes Helen ac Ysgol Sul Undebol Bosra ddiolch am y Parti Nadolig ac i Siôn Corn am ddod i'w gweld. Bu Siôn Corn yn sgwrsio hefo pob un o'r plant ac roedd wrth ei fodd yn gwrando arnynt yn canu - roedd hwn yn Siôn Corn oedd yn amlwg wedi hen arfer hefo plant.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant Ionawr a'r enillwyr oedd:

1. Mrs Rosie Jones, Blodfa, Pen-y-groes; 2. Miss Jên Jones, Ysgol Gymuned Penisarwaun; 3. Mr Aled Green, Rhos Wian.

Cynhaliwyd Noson Wasael lwyddiannus iawn nos Iau, Rhagfyr 21. Cafwyd eitemau gan y plant, darlenniadau gan oedolion a charol hyfryd gan John Eifion. Diolchir i Dewi, Marina ac Ann am gyfeilio ac i aelodau'r Pwyllgor am ofalu am y pwnsh a'r mins peis. Diolch i bawb a gefnogodd y noson.

Dyma gyfle os dymunir i aelodau newydd ymuno â'r Clwb Cant am 50c y mis neu £6 y flwyddyn a diolchir i'r ffyddloniaid am eu cefnogaeth.

Gwnaed elw o dros £80 gyda'r Catalogau Webb Ivory a diolchir i Phyllis am ei pharodrwydd bob blwyddyn i wneud y gwaith hwn.

Gobeithir cynnal amrywiol weithgareddau eto eleni er mwyn sicrhau cynhaliadau y Neuadd Gymuned hardd sydd gennym. Hyderir y ceir eich cefnogaeth unwaith yn rhagor.

YSGOL GYMUNED. Nos Wener, Ionawr 26 cynhaliwyd 'Noson Gerddorol' yn y Neuadd Gymuned. Cymerwyd rhan gan Annette Bryn Parri, Einir Griffith, Parti Pant yr Hwch, y tenor John Eifion a Chôr yr Ysgol. Arweinydd y noson oedd Arwel Jones. Ceir manylion pellach a lluniau yn y rhifyn nesaf.

EGLWYS ST HELEN.

Gwasanaeth y Plant. Cynhaliwyd gwasanaeth Cymun Teuluol fore



Enghraifft arall o arwyddion Cymraeg y Cyngor Sir. Wyddoch chi beth yw Carddwyr?

Sul, Rhagfyr 31 o dan arweiniad y Parch P. Hughes, y Deon Gwlad. Yn ystod y gwasanaeth cafwyd eitemau cerddorol gan Hannah Williams ar y fflwt a Llŷr Hughes ar yr organ. Yn anffodus cafodd Morus Williams ddamwain yn yr eira ac aethpwyd ag ef i'r ysbyty. Braf yw ei weld yn gwella ac edrychwn ymlaen am ei glywed yn chwarae'r clarinet yn y dyfodol. Perfformiodd gweddill yr aelodau ddrama Nadoligaidd a darllenwyd y llythoedd gan aelodau ifanc yr Eglwys. Gwnaethpwyd casgliad arbennig tuag at Gronfa Cymorth Cristnogol ac i hybu cronfa'r Ysgol Sul. Diolchodd y Parch P. Hughes i bawb am eu gwaith a dosbarthodd anrheg i aelodau'r Ysgol Sul.

Cystadleuaeth Arlunio Eglwys St Bodfan 2000. Llongyfarchiadau i aelodau'r Ysgol Sul am eu hymdrechion a'u llwyddiant yn y gystadleuaeth uchod:

Plant i fyny at 6 oed: 1. Siôn Llwyd Evans. 7-10 oed: 2. Rebecca Evans. 11.15 oed: 1. Luke Lloyd Hughes.

Rhoddwyd cymeradwyaeth uchel hefyd i Gethin Dafydd Phillips a Llŷr Alwyn Hughes am eu gwaith yn yr oedran rhwng 7 a 10 oed.

Arddangoswyd gwaith y plant yn Theatr Gwynedd yn ystod gwyliau'r Nadolig. Ardderchog blant! a diolch yn fawr i'r athrawon am eich hyfforddi.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Mathew Phillips ar basio arholiad Piano Gradd 5 Bwrdd Cyswllt yr Ysgolion Cerdd Brenhinol yn ddiweddar - tipyn o gamp. Da iawn ti Mathew.

APÊL. Am resymau amlwg, apeliaf unwaith yn rhagor ar i rywun gymryd gohebiaeth y pentref. Os oes unrhyw un yn barod, a fuasech chi garediced â chysylltu â mi yn ddiymddroi. Ffôn: 872407.

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

GLANHAWYR CARPEDI a POLSTRI

BRYNGWYN

Glanhau i fusnesau a chartrefi

**Keith Rees Hughes
1 Cae Newydd, Llanrug**

(01286) 674416 neu (07880) 847161

Bistro

LLANBERIS
Ffôn 871278

Perchnogion: **DANNY A NERYS ROBERTS**

A HEFYD
COFIWCH AM EIN

BeliBistro

Ffoniwch am fanylion

Cofiwch am nosweithiau arbennig Y BISTRO
nos Wener olaf pob mis

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

PLYGU'R ECO.

Twrn Llanrug fydd hi ymhen y mis i blygu Eco'r Wyddfa. Gan fod trafferthion wedi bod yn y gorffennol i gael gwirfoddolwyr i ymgymryd â'r gwaith pwysig hwn, tybed a fyddai rhai ohonoch yn gallu cysylltu dros y ffôn ag Eifion Roberts, 12 Nant y Glyn (01286 676339) neu Arwel Jones (01286 871274). Y gobaith yw y gallwn ail-godi tîm i blygu'r Eco.

PLAID CYMRU. Cafwyd noson hwyliog yng nghyfarfod y gangen nos Fercher, Ionawr 17, gyda chwis a baratowyd gan Gwyn Jones. Llongyfarchiadau lawer i dîm Bethel, y tîm buddugol.

Yn y cyfarfod nesaf, Nos Fercher Chwefror 14, y siaradwr fydd Huw Jones o Lanwnda. Croeso cynnes i bawb i Ganolfan Penisarwaun am 7.30 o'r gloch.

Bydd tocynnau ar gael yn fuan ar gyfer y Cinio Gŵyl Ddewi, a gynhelir nos Iau, Mawrth 1. Ar ôl Bwffe yn y Bistro, Llanberis bydd adloniant gyda Siân Wheway a Dafydd Roberts.

BABIS NEWYDD

Llongyfarchiadau mawr i Bethan ac Aled, Glanfa, Rhos Rhyddallt ar enedigaeith merch fach, Efa Lewis Roberts a gyrhaeddodd ar ddiwrnod Nadolig.

Llongyfarchiadau i John a Wena Parry ac Arwyn a Gwenda Roberts ar ddod yn deidiau a neiniau am y tro cyntaf.

GANWYD Cari, merch fach newydd i Kevin a Catrin Davies, Afon Rhos, chwaer fach i Daniel. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i chwithau.

LLONGYFARCHION. Dymunwn longyfarch Iona Wyn Williams, Artmor, Bryn Moelyn ar ennill Diploma A.L.C.M. gyda'r piano ym Manceinion yn ddiweddar. Da iawn chdi.

Hefyd i Fiona Pitts, Y Gelli, Ffordd yr Orsaf am basio Gradd 2 Telyn gydag anrhydedd. mae yn cael ei hyfforddi gan Dafydd Huw. Llongyfarchiadau i tithau.

DIOLCHIADAU. Dymuna Jean, Dylan, Dilwyn, Lesley a holl deulu y diweddar Terry Jones ddiolch i

bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a rhoddion er cof am Terry ar ôl ei farwolaeth sydyn. Diolch yn arbennig i'r doctoriaid Williams, Roberts a Jones am eu gofal tyner dros Terry yn ystod tair blynedd ei waeledd ac am eu cefnogaeth ar ôl ei farwolaeth. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Mr Gwynfor Jones am eu trefnu gofalus o'r angladd ac i'r Parch Phillip Hughes, Mrs Andrea Roberts a Mrs Alwena Hughes Jones, Eglwys Sant Mihangel Llanrug am eu cymorth a'r gwasanaeth yn yr Eglwys. Diolch o waelod calon i bawb.

DYMUNA Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf ddiolch i'w holl ffrindiau am yr anrhegion a chardiau Nadolig a dderbyniodd dros yr ŵyl. Diolch i'r teulu am eu gofal a'u caredigrwydd ac i bawb am yr holl gardiau a'r anrhegion pen-blwydd. Diolch yn fawr.

Hefyd, fe ddymuna Mrs L.E. Owen, Llys Myfyr ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion i gyd am eu caredigrwydd, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd yn ystod y Nadolig.

DYMUNA Aled a Bethan, Glanfa, Rhos Rhyddallt ddiolch yn fawr i'r teulu, eu ffrindiau a chymdogion am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth Efa.

DYMUNA Wavell Roberts ddiolch i'r holl ardal am eu cefnogaeth drwy gydol y flwyddyn.

MARWOLAETH. Trist yw cofnodi marwolaeth sydyn iawn Mr Eurwyn Jones, Mairiannedd, Groeslon Marc. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant i'r teulu, Ceris, Sian a Bethan, eu partneriaid a'r wyrion a'r wyresau. Bydd colled fawr iddynt i gyd.

CAPEL Y RHOS. Ar Ragfyr 17 cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig y Plant gyda chynulleidfa deilwng iawn yn bresennol. Gwnaeth y plant eu rhan yn arbennig o dda - dros 80 ohonynt wedi eu hyfforddi gan athrawon yr Ysgol Sul. Yr oedd eu gweld i gyd hefo'i gilydd yn y Sêl Fawr a'r pulpud ar ddiwedd y gwasanaeth yn olygfa hyfryd gyda'r Gweinidog yn eu canol. Da iawn blant. Diolch yn

fawr i'r athrawon am eu gwaith diflino efo'r plant ar hyd y flwyddyn ac i'r rhieni am eu cefnogaeth. Gwnaethpwyd casgliad yn y gwasanaeth - £80 tuag at y cartref yn Bontnewydd ac £80 tuag at Dŷ Gobaith, Croesoswallt. Cafwyd te parti yn y prynhawn gydag anrhegion i'r plant.

CYDYMDEIMLO.

Dymuna swyddogion ac aelodau Capel y Rhos gydymdeimlo â'r Parchedig Dafydd Hughes yn ei brofedigaeth o golli ei dad yn ddiweddar.

MERCHED Y WAWR. Ar ddechrau blwyddyn newydd bu'n rhaid i'r Llywydd Phyllis Ellis anfon ein cofion cynhesaf at gyn-lywydd y gangen sef Ann Ifans, Penisarwaun. Mae Ann bellach adref o'r ysbyty yn Lerpwl ac mae

pawb yn dymuno adferiad buan iddi. Hefyd Mrs Whiteside Thomas sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

Croesawyd Carys Dafydd o Siop O Law i Law Bethesda i'n plith i ddangos hen greiriau. Magwyd Carys yn Y Parc, ger Y Bala a thra'n dangos nifer o'r celfi adroddodd hanesion o nosweithiau llawen ar yr aelwyd yng nghwmni Nansi Richards. Cofiai hefyd Hywel Wood, o deulu Abram Wood, yn galw heibio yn dymhorol ac fel yr oedd yn cael ei swyno gan hanesion Romani a hen goelion gwlad. Diolchwyd am noson gartrefol gan Bethanne a gwnaethpwyd y te gan Beryl a Morfina. Ar ddydd pen-blwydd arbennig priodol oedd i Menna ennill y raffl.

Chwilota

(parhad o dud. 4)

pwyso am Theatr Genedlaethol o tua 1918 ymlaen. Ail-afaelodd ynddi o ddiwedd tua 1936 a noddi Cwmni go-iawn, gan gyflogi Isobel ac eraill, gan gynnwys Meredith Edwards. Mae Hywel Teifi yn ei gyfrol "Codi'r Llen" yn sôn am y cyfnod, ac yn synnu "nad oes cymaint â monograff i gydnabod de Walden, y thesbiad tra goludog a ddenodd yn y tridegau 'National Winner' o adroddreg o'r enw Meriel Williams ... i Blas Newydd yn Llangollen i fod yn gyfarwyddwraig artistig 'Y Chwaraedy Cenedlaethol Cymreig' byrhoedlog, ac (am) ... geisio rhoi tafod Sais yng ngheg Cymro mor golledig â Meredith Edwards!"

Ac i ddiweddu ei lythyr mae Huw Roberts yn sôn am un arall o feibion Llanberis, y diweddar Wilbert Lloyd Roberts a ffurfiodd Gwmni Theatr Cymru, "y dylid bod rhywun yn adrodd ei hanes."

Teithio Cynnar

Gyda diolch i Miss Olwen Davies, Bangor am gyfeirio at "Etifeddiaeth Ddiwydiannol Llechi", cyhoeddiad gan

Ymddiriedolaeth Archaeoleg Gwynedd, sy'n trafod y drafnidiaeth llechi mewn cychod, ac yn cynnwys llun o Bont Penllyn a adeiladwyd tua 1926.

Gwarchod yr Amgylchedd

A minnau'n gorffen ysgrifennu'r erthygl hon ar ddiwrnod y ddamwain olew yn Ynysoedd y Galapagos, ac oblygiadau'r llygredd ar un o gynefinoedd unigryw'r byd, da cofio fod un o gynghorau'r ardal hon yn ymboeni am lygredd ganrif yn ôl. Ar ddiwedd 1900 roedd Cwmni Lake and Co. wedi gwneud cais i Gyngor Gwledig Gwyrfa'i i newid defnydd y Snowdon Factory, Pontrug, i ffatri cig moch. Nid oedd gan y Cyngor wrthwynebiad i'r bwriad ar yr amod fod y cwmni yn gwneud eu gorau i atal llygredd i afon Saint.

Anfonwch unrhyw wybodaeth neu ymholiad am hanes bro'r "Eco" i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn 01286 673515)

Dawnsywyr Gorau'r Fro



Y K-Jan Kickers, a enillodd y wobwr gyntaf am ddawnsio Llinell mewn cystadleuaeth ddiweddar yng Nghaeathro a drefnwyd gan gwmni Sain. Mae Debby, Shirley, Jennifer a Pauline yn mynychu dosbarth dawnio yn Llanberis.

GWASANAETH ARGYFWNG PLYMIO

24 awr y dydd - 7 diwrnod yr wythnos

PLUM24CYM

Gwaith Plymio • Gosod Ceginau a Bathrwm
Gwaith cynnal a chadw o bob math

Cysylltwch â DOUG JONES, BRON EIFION, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650363 (0797) 0318996 (symudol)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun

Ffôn: (01286) 671833

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

MERCHED Y WAWR. Cyfarfu'r aelodau y mis yma dan lywyddiaeth Glenys Griffiths. Cydymdeimlwyd â Sharon Owen ac Ann Lewis ar farwolaeth sydyn eu tad, a dymunwyd yn dda i Seiriol, gŵr Beti Owen a oedd wedi bod yn yr Ysbyty yn ddiweddar yn derbyn triniaeth.

Atgoffwyd yr aelodau i gyflwyno unrhyw arian tramor neu hen arian sydd ganddynt i Rita neu Glenys er budd Cronfa Gŵyl Ddewi 2001. Darllenwyd llythyr oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru yn annog yr aelodau i gasglu llyfrau y maent wedi gorffen â nhw, fel rhan o weithgaredd Diwrnod y Llyfr 2001 a'u cyflwyno i Siopau elusennau i'w gwerthu.

Bydd Glenys ac Eirlys yn cymryd rhan mewn Distawrwydd Noddedig ddiwedd y mis, er budd Pwyllgor yr Anabl, sydd wedi penderfynu casglu eleni at Glefyd

y Galon gan helpu i brynu offer 'Angiogram' i Ysbyty Gwynedd. Os oes rhywun sydd heb gael cyfle i noddi'r ddwy, cysylltwch ag Eirlys.

Estynodd y llywydd groeso cynnes i'r siaradwr gwâdd, sef Elfyn Thomas o Gwmni Seren Arian. Cafwyd amser difyr yn gwrandao arno'n sôn am y cwmni o'i ddechreuad ym 1918, pan brynodd tad Elfyn y busnes, i sut mae'r cwmni yn gweithredu heddiw. Diolchwyd iddo gan Rita Williams a darparwyd y te gan Enid Christie a Jen Roberts, ac enillydd y raffl oedd Margaret Eckley.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn yr Archifdy yng Nghaernarfon nos Fercher, Chwefror 14 yng nghwmni Lynne Roberts. Os oes unrhyw un angen cludiant, rhwch wybod i un o'r Swyddogion.



Lowri, Cai, Ffion, Ild a Lois fu'n canu Carolau o amgylch Bethel cyn y Nadolig. Casglwyd £26 tuag at yr Ysgol Feithrin. Diolch iddynt am eu cyfraniad.

DRAENOG



Mae'n syndod gymaint o'r ardal hon sy'n heidio i'r haul yr amser yma o'r flwyddyn, ac yn naturiol, mae rhai o deulu'r Draenogod ym mynd hefyd. Dyna sut y cefais i'r stori am gwpwl o Lanrug yn llogi taci rhwng Los Americas a Los Christianos ar ynysoedd Tenerife. O! roedd y gyrrwr yn glên: yn barod ei gymwynas i'r ddau ar eu taith i weld perthnasau o Benisarwaun oedd yn aros mewn gwesty

arall. A thalwyd y 2,000 peseta yn hollol ddirwgnach, gan ychwanegu tip sylweddol i greadur mor rhadlon. Dim ond wedi i'r gyrrwr ddiflannu'n ôl am Los Americanos y sylweddolwyd mai 500 peseta'n unig ddylai'r ffêr fod! Y fath golli tymer! Yn wir, treuliwyd gweddill y gwyliau yn chwilio am y gyrrwr taci er mwyn ceisio hawlio'r arian yn ôl.

Ac os oes unrhyw un arall o'r fro yn bwriadu mynd i Tenerife, yna gochelwch rhag y gyrrwr taci â'r mwstas anferth, neu holwch yn Celtest neu'r cigydd lleol am ddisgrifiad manwl ohono cyn mynd!



Plant Ysgol Sul y Cysegr wedi eu gwasanaeth Nadolig.

Adroddiad ar Arolwg Ysgol Bethel 18-21.09.00

Yn dilyn arolwg diweddar Ysgol Bethel mae adroddiad yr arolygwyr a gyhoeddwyd ar 20.11.00 yn ganmoladwy iawn i bob agwedd ar yr ysgol. Mae'r arolygwyr yn datgan fod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgwr a bod y 'safonau uchel a gyflawnir gan ddisgyblion ysgol Bethel, eu hagwedd gadarnhaol at ddysgu, eu cwrteisi a'u hymddygiad da yn esgor ar sefydliad addysgol da'.

Darganfyddwyd fod safonau ar gyfer plant dan 5 yn dda yn y chwe maes dysgu a bod safonau cyflwyniad y disgyblion yn adran y babanod a'r adran iau yn dda ym mhob agwedd ar y cwricwlwm, yn dda iawn yn Cerdd ac Addysg Gorfforol, ac yn dda iawn yn Hanes a Chelf yn yr adran iau.

Mae'r adroddiad yn nodi fod 'ansawdd yr addysgu yn gryfder sy'n bennaf gyfrifol am y safonau cyflawniad'. Roedd yr addysgu'n foddhaol neu'n well yn yr holl wersi a arsylwyd gyda 83% yn dda neu'n dda iawn.

Barnwyd fod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol,

moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda a bod partneriaeth gyda'r rhieni a'r gymuned yn dda hefyd.

'I gyrraedd y safon yma ceir rheolaeth dda gan y corff llywodraethol, arweinyddiaeth gadarn a gofalgwr gan y pennaeth ynghyd â staff gweithgar ac ymroddedig tu hwnt sy'n gweithio'n dda fel tîm'. Nodir fod ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol gan y llywodraethwyr a'r pennaeth ac effeithlonrwydd yr ysgol yn dda iawn gyda ethos gwaith proffesiynol ac effeithiol.

Mae'r ychydig faterion allweddol i weithredu arnynt yn cynnwys yr angen i wella ansawdd wyneb y buarth sydd heb dderbyn sylw ers yr adroddiad blaenorol chwe mlynedd yn ôl.

Dymuna'r corff llywodraethol longyfarch a diolch i bawb sydd wedi cydweithio dros y blynyddoedd i wneud Ysgol Bethel mor hapus a llwyddiannus, yn enwedig y staff dysgu am eu hymroddiad di bendraw at ddatblygiad cyflawn plant pentref Bethel.



Tîm pêl-droed cyntaf Llanrug

antur WAUNFAWR

'Rhyw Ddydd' llyfr newydd Antur Waunfawr

cynnig gobaith newydd i gymdeithas ar ddechrau'r Mileniwm

yn cynnwys portreadau Keith Morris o Wynebau Waunfawr Golygydd Angharad Tomos

ar gael yn Antur Waunfawr pris £4.50


01286 650 721
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD

YSGOL BRYNREFAIL

Atgofion Parti Pendalar
Rhagfyr 14, 2000



Y dyrfa yn mwynhau yr adloniant ac yn disgwyl am Siôn Corn.

Unwaith eto eleni, trefnwyd parti Nadolig i ddisgyblion Ysgol Pendalar gennym ni, fyfyrwyr y chweched dosbarth. Nid gwaith un dydd mo hyn, oherwydd i gynnal y gweithgaredd blynyddol mae'n rhaid codi tua £1,300 er mwyn prynu'r anrhegion, darparu adloniant a bwyd ar gyfer y plant. Wedi wythnosau o dorchillewys a dyfalbarhau, llwyddom i godi £2,400, diolch i doreth o roddion oddi wrth nifer o fusnesau lleol a hefyd i archfarchnad Safeways yng Nghaernarfon am adael inni godi arian yn eu siop mewn tywydd gaeafol tu hwnt!

I gyrraedd ein nod, trefnom raffl gyda'r gwobrau wedi eu rhoi gan fusnesau lleol. Y wobrgyntaf oedd pryd o fwyd i ddau yn Y Bistro, Llanberis, a'r ail wobroedd oedd hamper o wahanol gigoedd o Siop Gig Wavell yn Llanrug (Gweler y rhestr llawn o'r enillwyr.)

Fe ddaeth y dydd yn llawn bwrllwm a brwdfrydedd - roedd angen mwy o waith paratoi cyn

iddynt gyrraedd! Coginio, lapio anrhegion ac addurno'r neuadd a'r ffreutur - dim ond rhai o'r amryw bethau y buom yn eu gwneud yn y broses o baratoi. Ac, o'r diwedd - amser y parti!

Llwyddom i gael Arfon Wyn (Moniars) a'i fand o Ysgol Gynradd Biwmares i ddiddanu'r plant â chaneuon poblogaidd, i gael pawb mewn tymer hwyliog ac yn barod ar gyfer y wledd o frechdanau, cacenau ac yn y blaen. Wedi llond bol o fwyd, daeth yn amser pinacl y parti - Siôn Corn a'i helpwyr. Cyflwynodd ein Siôn Corn ni (Huw Evans) anrheg yr un i'r plant a hefyd 'cwyn cymysg' wedi eu rhoi gan 'Brewer's Fare' ym Mangor.

Profodd y digwyddiad yn un llwyddiannus iawn diolch i gydweithio rhyngom ni'r chweched dosbarth ac, unwaith eto eleni, gadawodd pob un plentyn ein hysgol â gwên lydan ar eu hwyneb - pob un wedi cael hwyl ac, yn bwysicach na dim, llond bol o fwyd!

*Owain Sion Williams
ac Alaw Jones*

Diolchiadau

Dymuna myfyrwyr chweched dosbarth Ysgol Brynrefail ddiolch i'r busnesau lleol canlynol am gyfrannu'n hael tuag at barti llwyddiannus i blant a phobl ifanc Ysgol Pendalar, Caernarfon.

DEINIOLEN

International Safety Components Limited; Gym; Ysgol Gwaun Gynfi; Thomas & Jones; A. Ward; Bysiau Ieuan Williams; Clwb Pêl-droed; Y Bull; Garej Beran; Spar; Clinic; Post y pentref; Clwb Ieuenctid.

BETHEL

Merched y Wawr; Clwb Pêl-droed; Ysgol Gynradd; Siop Treflyn; Cartref yr Henoed, Idris Morris.

LLANBERIS

Padarn Lake; Pet Shop;

Ymgyrch Stopio Smocio



Criw o'r chweched dosbarth yn lansio 'Gad hi mi gei di' gyda Kev Bach.

Ar ddydd Mercher, y trydydd o Ionawr, aeth criw ohonom sy'n dilyn cwrs Gofal a Iechyd i lawr i Ganolfan Deiniol ym Mangor gyda'r athrawes, Mrs Aelwen E. Jones.

Pwrpas yr ymweliad oedd lansio'r ymgyrch 'Gad hi, mi gei di', ac i gychwyn yr ymgyrch daeth Kev Bach o Champion 103 i annog pobl i roi i fyny.

Wedi mis o beidio smocio bydd yr enwau yn cael eu rhoi mewn 'draw' am wobrau hael, ac ar ddiwedd yr ymgyrch bydd siawns i ennill car i'r sawl sy'n dal heb smocio!

Profodd ymgyrch debyg yn llwyddiant mawr llynedd yn Lloegr, a hyderwn y gwelwn yr un peth yma eleni.

Bethan M. Jones. Bl. 12



Mr Eifion Jones, y prifathro, gydag un o'r bobl ifanc.

Mountain View; Caffi Cae Coch; Pete's Eats; Prince of Wales; Siop Cigydd; Siop Antiques; Becws Eryri; DMM; First Hydro; Gwesty Royal Victoria; Spar.

LLANRUG

Wavell Roberts, Cigydd; Spar; Co-op; Post; Arvon; Ysgol Gynradd; Garej Hafod; Stiwdio Capel Mawr; Parc Carafanau Llys Derwen; Ysgol Yrru SDS.

PENISARWAUN

Ysgol Penisarwaun; Clwb

Ieuenctid; Post; Meichal Jones, Saer; Dylan Griffiths; Blodau Racca.

Enillwyr y Raffl

1. Menai Wyn Jones: pryd o fwyd i ddau yn y Bistro, Llanberis; 2. Owain Sion: hamper o gig o Wavell, Llanrug; 3. Hilda: £20; 4. Rhiannon Parry; 5. Aled; 6. Rhian W. Jones; 7. Manon Davies; 8. Morfudd Jones; 9. Aelwen Jones; 10. Owen Glyn; 11. Ann Davies; 12. Hefin.



Mrs Jackie Roberts (Arweinydd Clwb Ieuenctid Deiniolen) a chynrychiolwyr o'r clwb: Mathew Guy, Iona Hughes a Gary Taylor yn cyflwyno sic o £210 at Apêl Parti Nadolig Ysgol Pendalar, i fyfyrwyr a phennaeth y chweched dosbarth.



Hyd yn oed rhai o'r chweched yn edrych ymlaen at weld Siôn Corn!



Prosiect Murlun Ysgol Brynrefail

Bellach mae cyfnod Nerys Owen fel artist preswyl yn yr Adran Gelf wedi dod i ben. Mae'r holl ddisgyblion sy'n dilyn Celf wedi creu print fydd yn rhan o'r murlun i ddathlu canmlwyddiant yr ysgol. Bydd y murluniau terfynol yn gyfuniad o waith disgyblion blynyddoedd 7-13. Bydd un rhan yn canolbwyntio ar hanes yr ysgol a'r hanner arall yn canolbwyntio ar yr ysgol ar hyn o bryd.

Ar ddydd Mawrth, Ionawr 16 bu myfyrwyr Bl.12 a 13 yn gweithio yn yr ystafell Gelf drwy'r dydd a chrëwyd llwythi o argraffiadau amrywiol a safonol. Roedd y disgyblion yn mwynhau y cyfle i fynd i mewn i'r broses o ddifri a chael cyngor



Nerys Owen, yr artist preswyl.


ac arweiniad gan Nerys ar sut i incio platiau a datblygu lliwiau. Yn ôl Nerys roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a datblygodd safon gwaith y myfyrwyr yn sylweddol.

Trefnwyd arddangosfa o'r gwaith yn Oriel Llyfrgell Caernarfon. Bydd yr arddangosfa yn agor nos

Fercher, Mawrth 21 a gwahoddir pawb, yn rhieni, disgyblion a chyn-ddisgyblion i ddod i weld y gwaith. Edrychwch allan am y posteri. Fe ddaw llythyr i rieni plant sydd wedi cymryd rhan. Bydd myfyrwyr hyn yr ysgol yn

arddangos un darn o waith unigol yr un gyda'r murluniau. Bydd Nerys hefyd yn arddangos rhywfaint o'i gwaith ei hun.

Noddwyd y prosiect gan arian loteri a gafwyd trwy Gyngor Celfyddydau Cymru.



Prysurdeb yn yr Adran Gelf.



Nerys a Guto'n chwysu.

Gwasanaeth Carolau

Ar nos Lun, Rhagfyr y deunawfed cynhaliwyd Gwasanaeth Carolau blynyddol Ysgol Uwchradd Brynrefail yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis.

Roedd yr eglwys dan ei sang a phawb yn barod i wrando ar y wledd o eitemau oedd yn eu haros.

Cafwyd nifer o eitemau amrywiol gan gynnwys darlenniadau, eitemau offerynol, eitemau lleisiol unigol, cyd-lefaru, ensemble lleisiol a chôr ac, wrth gwrs, roedd cyfle i'r gynulleidfa ymuno â chanu'r carolau cynulleidfaol.

Ar ôl wythnosau o baratoi ac ymarfer roedd graen ar y cyfraniadau i gyd a'r gynulleidfa'n mwynhau'r arlwy traddodiadol a modern fel ei gilydd.

Llwyddwyd i gynnal naws addolgar gydol y gwasanaeth a chyflwynwyd neges oesol y Nadolig mewn modd ffres, yn wir roedd awyrgylch arbennig iawn yno.

Cafwyd gair o ddiolch gan Gadeirydd y Llyowdraethwyr, Mr Rolant Wynne, a gymerodd y cyfle i groesawu Miss Annwen Guile, pennaeth newydd yr Adran Gerdd, a diolch iddi am ei gwaith caled ac i'r aelodau eraill o staff a fu'n hyfforddi a pharatoi'r disgyblion.

Llongyfarchiadau i bawb fu'n ymwneud â'r noson, a mawr yw ein diolch unwaith eto am gael cynnal ein gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn.

Clwb Cant

Enillwyr Hydref 2000:

1. D.L. Roberts, Penisarwaun;
2. Morfudd Thomas, Bethel;
3. Pat Jones, Llanrug.

Enillwyr Tachwedd 2000:

1. H.W. Sutherland, Deiniolen;
2. Aelwen Jones, Ysgol Brynrefail;
3. J.B. Jones, Deiniolen.

Enillwyr Rhagfyr 2000:

1. J.A. Hughes, Deiniolen;
2. Jacqueline Owen, Waunfawr;
3. Sioned Jones, Cwm-y-glo.

Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail

Ionawr 2000

Annwyl Gyfeillion,

Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi'r Gymdeithas yn y blynyddoedd diweddar. Yn y gorffennol llwyddodd y Gymdeithas, gyda chymorth 'The Foundation for Sport and The Arts', i brynu bws mini a defnyddiwyd arian y Gymdeithas i atgyweirio garej i gadw'r bws.

Bellach mae gan y Prifathro a'r athrawon gynlluniau cyffrous ar gyfer neuadd yr ysgol, sy'n cynnwys adnewyddu'r offer. Cytunodd y Gymdeithas i gefnogi'r fenter hon drwy gyfrannu £10,000. Hefyd, bydd yr ysgol yn gwneud

ceisiadau am grantiau ac yn y blaen.

Gallwch chi ein cynorthwyo i gyrraedd ein targed, drwy ymuno â'r Clwb 100. Dim ond £12 y flwyddyn yw'r gost, a rhoddir hanner yr arian a dderbynnir yn ôl fel gwobrau.

Os hoffech ymuno â'r Clwb, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd i'r ysgol, ynghyd â siec yn daladwy i 'Gymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail', neu gallwch dalu gydag arian. Petaech yn dymuno talu gydag archeb banc, gofynnwch am ffurflen.

Cofiwch bod croeso i unrhyw un ymuno.

Yn gywir
Nan Humphreys
Cadeirydd

CLWB CANT CYMDEITHAS CYFEILLION YSGOL BRYNREFAIL

Enw:..... Ffôn:.....

Cyfeiriad:.....

..... Côt Post:

Amgaeaf: £12 arian ☐ siec ☐ hoffwn gael ffurflen archeb banc ☐

Enw'r plentyn hynaf Bl.....
yn yr ysgol os yn berthnasol

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

MARWOLAETH. Yn dawel yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon ddydd Sul, Ionawr 7, 2001 bu farw Mrs Joyce Jones, Bod Elan yn 72 oed. Cymeriad tawel oedd Joyce ond yn barod ei chymwynas bob amser, ei diddordebau pennaf oedd coginio a gwnïo. Bu ei hangladd ar Ionawr 12 yn Amlosgfa Bangor gyda'r Parch Phillip Hughes yn gwasanaethu.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Eifion ac Alan (meibion), Avril a Marie (merched yng ngyfraith), y wyresau Carys ac Anest a'i wyrion Dewi a Gethin yn eu profedigaeth lem o golli mam a nain annwyl iawn.

DIOLCH. Dymuna Robin ac Enid Price, Stryd Newydd ddiolch yn ddiffuant i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu Priodas Aur.

DYMUNWN ddiolch yn ddiffuant i Mr Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro a Mrs Peggy Rowlands, Talaion am ddosbarthu'r Eco am flynyddoedd lawer. Bydd Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym yn ymgymeryd â'r gwaith oddi wrth Mrs Rowlands ond gan nad oedd neb yn barod i ymgymryd â gwaith Mr Hughes, bydd yr Eco ar gael yn yr Orsaf Betrol neu yn 'Caban Cwm' o hyn ymlaen.

LLONGYFARCHIADAU i Ben Chadwick, Bod Iestyn ar achlysur ei ben-blwydd yn 18 oed.

Hefyd i Catherine a John, Rhos Bryn ar fod yn nain a thaid am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Liam Ellis, i David a Dawn yng nghaernarfon.

Hefyd i Robin ac Enid Price, Stryd Newydd ar achlysur arbennig iawn, sef dathlu eu Priodas Aur.

DYMUNIAU gorau i chwi i gyd. **CYDYMDEIMLAD.** Estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â Mrs Gwyneth Chick (Rhos-y-ffin gynt) ond nawr yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun a Mr Hywel Williams a'r teulu, Nant Forgan yn eu profedigaeth o golli brawd, sef Mr John Williams.

Hefyd â theulu y diweddar Mr Gwilym Thomas o Gaeathro. Er i Mr Thomas gartrefu yng Nghaeathro ers blynnyddoedd roedd ganddo ddiddordeb mawr yn y Cwm a'i drigolion, gyda sgwrs ddiddorol bob amser am ei blentyndod a hen gymeriadau'r Cwm.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mrs N.M. Owen, Glandŵr a Mrs Enid Price yn gwella ar ôl dod adref o Ysbyty Gwynedd.

CAPEL Y TABERNACL. Nos Iau, Rhagfyr 21 cynhaliwyd

gwasanaeth o Garolau gyda Mrs Cassie Thomas wrth yr organ. Croesawyd pawb i'r gwasanaeth gan y Parch Gwynfor Williams a chymerwyd rhan gan aelodau'r eglwys, parti plygain, a phlant yr Ysgol Sul. Swynwyd y gynulleidfa gan lais swynol Mari Wyn o Lanberis yn canu dwy garol, un yn Almaeneg ac un yn Gymraeg. Hefyd cafwyd eitem arbennig gan Cassie gyda'r 'crwth', sef hen offeryn cerdd a genid â bwa.

Diolchwyd i bawb gan ddymuno'n dda i Mari, sydd ar hyn o bryd yn fyfyrwraig yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd, gan Mr Dafydd Price. Rhoddwyd y fendith i derfynu'r gwasanaeth gan y Parch Phillip Hughes.

Casglwyd £50.50 tuag at Cymorth Cristnogol.

Bydd gwasanaethau mis Chwefror fel a ganlyn:

4 Clwb y Plant am 2; Parch Gwynfor Williams - Bedydd a Chymun am 4 o'r gloch;

11 Clwb y Plant am 2; Miss Eleri Ll. Jones am 4;

18 Clwb y Plant am 2; Gwasanaeth am 4.

25 Clwb y Plant am 2; Parch Emrys Thomas am 5.30.

LLONGYFARCHIADAU i Dr Paul Rowlinson ar gael ei ethol yn Ddarpar - Ymgeisydd Seneddol ar ran Plaid Cymru yn etholaeth Delyn. Bu Paul yn weithgar iawn yn y pentref pan oedd yn byw yng Nghwm-y-glo cyn symud i ardal Bethesda. Ef yw Is-lywydd Plaid Cymru yng Ngwynedd. Pob lwc iddo yn yr etholiad.

FFAIR NADOLIG MENTER FACHWEN. Dydd Iau, Rhagfyr 7 cynhaliwyd Ffair Nadolig yng Nghaban y Cwm. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn a hoffai'r staff a'r hyffoddwyr ddiolch i'r holl bobl a ddaeth i gefnogi'r achlysur. Hefyd hoffem ddiolch i bawb a roddodd mor hael tuag at y raffl. Rhestrir isod yr holl enillwyr:

1. 8 potel Coca Cola - 872369; 2. Rith Toes Halen - Alison 872051; 3. Teisen Nadolig - Margaret 870730; 5. Llun - Joanne; 6. Llun wedi'i frodio - Eirlys Williams; 7. Taleb Cig - Thomas, Parc Carafannau Snowdon View; 8. Basged o Golur - Sioned 872085; 9. Basged o Golur - Carol 870359; 10. Cyfrifiannell - Mari 870359; 11. Cyfrifiannell - Morfudd 675057; 12. Set o Bowlenni Ffrwythau - Dorothy 870770; 13. Cyfrifiannell - Mair Hughes 677263; 14. Brooch - Mrs Harris 872055; 15. Tun Coffi - Eirlys, Deiniolen 871300; 16. Siocled - Carys Swyddfa; 17. Gwin - Dafydd Whiteside; 18. Gwin - Carol 870158; 19. Gwin -

Dr Ruth; 20. Gwin (01248) 671202; 21. Rug - Catherine, Becws Cwm; 22. Crochenwaith - Dafydd Ellis; 23. Gwin - Mair 677263; 24. Gwin - Mari 870359; 25. Bocs o Dŵls - Liz, Penisarwaun 872207; 26. Siocled - Dr Ruth.

YSGOL CWM-Y-GLO. Blwyddyn Newydd Dda i bawb sy'n gysylltiedig â'r ysgol mewn unrhyw ffordd. Carem ddiolch i holl rieni, perthnasau a ffrindiau'r ysgol am eu cefnogaeth i holl weithgareddau'r ysgol ddiwedd tymor y Nadolig.

Diolch o galon i Fand Llanrug a Chôr Meibion Dyffryn Peris am eu cyfraniadau i'r noson boblogaidd o Garol a Mins Pei. Cawsom dri perfformiad o'r sioe Nadolig eto eleni a braf oedd gweld cymaint yn mwynhau perfformiadau'r plant.

Cafodd y plant barti a disgo a danteithion blasus wedi eu paratoi gan y rhieni a phwyllgor y Gymdeithas Rieni/Athrawon. Diolch arbennig i Siôn Corn am alw heibio gydag anrheg hynod ddifyr i bob plentyn. Dyma gyfraniad gwerthfawr y rhieni eto!

Braf yw cael croesawu baban bach ar unrhyw aelwyd. Ganwyd brawd bach i Gwilym a Patrick pan oedd y ddau yn cymryd rhan dau o'r doethion yn y cyngerdd Nadolig. Mae tri gŵr bach doeth ar yr un aelwyd yn Ninorwig erbyn hyn! Llongyfarchiadau mawr i chwi fel teulu.

Ychydig cyn diwedd y tymor aeth plant Bl. 1-4 ar ymweliad i weld hen arferion y Nadolig yng Nghastell Penrhyn. Cawsant amser difyr ac addysgiadol iawn.

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cadeiriwyd cyfarfod mis Ionawr o'r Cyngor gan Miss Phyllis Ellis, Penisarwaun. Roedd Mr Walis George, Cyfarwyddwr Tai Eryri yn bresennol yn y cyfarfod a chafwyd ganddo amlinellu o weithgarwch y Cwmni ym mhentrefi'r plwy.

Cytunwyd i ymaelodi â'r Gymdeithas ac i'r Cadeirydd gynrychioli'r Cyngor ar y Pwyllgor.

Roedd y Cyngor yn siomedig na ellid cario ymlaen gyda'r bwriad o sefydlu safle-ail-gylchu gyferbyn â'r Post yng Nghlwt-y-bont, ond eto yn llawn gytuno â'r eglurhad a gafwyd. Fe garai'r Cyngor gael gwybodaeth am safleoedd addas ar gyfer biniau ail-gylchu yn Neiniolen, Penisarwaun, Brynrefail a Chlwt-y-bont. Os oes gan unrhyw un awgrymiadau ar gyfer safleoedd y gellir eu hystyried, cysylltwch â'ch aelod lleol neu'r Clerc (Ffôn: 870095). Dim ond ym Methel a Rhiwlas mae gennym safleoedd ar hyn o bryd.

Hysbyswyd fod Cyngor Gwynedd yn y broses o gynhyrchu llyfryn o ddigwyddiadau a fydd yn digwydd mewn gwahanol ardaloedd - digwyddiadau

Cyn y Nadolig bu planbt Bl. 5a6 yn gweithio gyda'r awdures Mair Wynn Hughes. Bu'n trafod ei llyfrau gan gyflwyno syniadau ar gyfer ysgrifennu i'r plant. Cafodd pawb gyfle i gyflwyno stori yn ôl iddi hithau.

Cafodd yr un plant gyfle i gyfarfod Mr John Morris o Frynrefail a gweld ei waith celf cywrair. Roeddent wedi mwynhau'r ymweliad yn fawr iawn. Diolch iddo am ddod atom.

Rydym o'r diwedd yn croesawu cogyddes newydd i'r ysgol. Mae Mrs. Janet Taylor bellach wedi ymgartrefu yn y gegin ac yn dod i adnabod ei theulu newydd yng Nghwm-y-glo. Croeso mawr i chwi Anti Janet. Diolch eto i Mrs. Orritt am ei rhoi ar ben ffordd a dymunwn y gorau iddi rwan - mae'n haeddu seibiant.

Ac unwaith eto - fe ddaeth yn amser i bawb fwyta creision Walkers! Ydy, mae'r talebau ar y pasedi eto ac mae modd cael llyfrau i'r ysgol wrth eu cyfnewid. Rydym yn gwneud apêl eto eleni am y rhain a diolchwn ymlaen llaw i bawb fydd yn ein cefnogi.

Enillwyr Clwb yr Ysgol am fis Hydref oedd Mrs Avril Jones, Glan y Don a Mrs Gail Pritchard, Tan y Castell. Aeth tair gowbr mis Tachwedd i Mrs Enid Price, Cwm-y-glo, Mr Rhodri Llwyd, Berth Glyd, Llanrug a Mrs Nancy Jones, 79 Maes Padarn, Llanberis. Daeth lwc y Nadolig i Mrs Doreen Roberts, Llanberis, Mr Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug a Mrs Diane Roberts, Dolafon, Cwm-y-glo. Llongyfarchiadau i chwi a diolch am gefnogaeth pawb.

blynnyddol megis Eisteddfodau, Carnifal a.y.y.b. Os carai unrhyw un fanteisio ar y cyhoeddusrwydd hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Marchnata, Adran Cynllunio a Datblygu Economaidd, Cyngor Gwynedd, Caernarfon a gwnewch hynny ar fyrder.

Rhoddodd y Clerc fraslun o'r sefyllfa ariannol gydag amcangyfrif o'r hyn a fyddai mewn llaw gennym ar derfyn y flwyddyn ariannol, gan awgrymu y byddai cyfanswm o £8,000 yn ddigon o braesept ar gyfer y flwyddyn 2001-2002. Penderfyniad y Cyngor oedd codi £10,000.

Yn wyneb nifer o gwynion ynglŷn â thor-cyfraith yn y gwahanol bentrefi cytunwyd i estyn gwahoddiad i Swyddog o'r Heddlu i gyfarfod arbennig o'r Cyngor yn ystod mis Chwefror i drafod y cwynion.

Cytunwyd hefyd i wneud ymholiadau ynglŷn â'r sibrydion fod y llygredd honedig yn Llyn Padarn yn debygol o atal y gemau "Iron-man" y bwriedir eu cynnal yn yr ardal ym mis Medi. Mae un rhan o'r gemau yn golygu nofio 1,900metr ar hyd Llyn Padarn.

Hysbyswyd fod y Cyngor wedi gwario £1,520 ar drin Llwybrau Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn.

CEIROPODYDD

Mrs S. Groom MSSCh, MBChA

Yn ymweld â'ch Cartref i drin traed


Triniaeth ar gyfer:

Traed Poenus; Croen Caled; Verrucae; Cyrn a Chroen Caled; Ewinedd yn tyfu i'r byw; Torri Ewinedd; Gofal a Thyllino Traed.

Ffôn: (01248) 605450 neu

07747 696267 (symudol)

Cyfres Newydd



Talcen Caled

Tro ar fyd i Les?

Talcen Caled

9.00

Bob nos Sul

Yn cychwyn 18 Chwefror

TRANSL888/889
www.s4c.co.uk

S4C



Plant yn mwynhau'r eira ym Methel dros wyliau'r Nadolig.

Rhagor o Newyddion DEINIOLEN

MERCHED Y WAWR. Nos Lun, Ionawr 15, 2001 cynhaliwyd cyarod cyntaf y flwyddyn yn Ysgol Gwaun Gynfi.

Croesawodd y llywydd, Marian Williams, ein gwraig wâdd, Helen Mair Morris, Bethel. Bu Helen yn dweud hanes ei hymweliadau â Rwmania, trwy gyfrwng gair a sleid, a chawsom i gyd achos i feddwl wrth weld yr amgylchiadau truenus a gaed yno. Braf iawn oedd gweld bod Helen a'i chydweithwyr wedi llwyddo i wella ychydig ar y ffordd o fyw yn y cartref i enethod ble buont yn gweithio. Penderfynwyd ein bod yn casglu ychydig nwyddau yn barod erbyn ei hymweliad nesaf

â'r wlad ym mis Mai.

Diolchwyd i Helen gan Margaret Ellen Jones, ac ategwyd y diolch gan yr holl aelodau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Chwefror 19, pan y ceir ymweliad gan Eirian Roberts o Gwmni Clinique, Debenhams. Croeso cynnes i bawb.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Nos Lun, Ionawr 22, cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn Ysgol Gwaun Gynfi. Llywyddwyd gan Ms Ann Lloyd ac estynnodd groeso i'r siaradwr gwâdd, Mr R. Lloyd Jones, Bethel. Cawsom sgwrs ddiddorol ganddo ar y testun 'Geiriau', a dyfynnodd amryw o englynion o waith ei hoff feirdd, ac wedyn o'i waith ef ei hun. Diolchwyd iddo gan y llywydd.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes
a physgod.
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCW UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DIOLCH. Dymuna Goronwy Lewis ddiolch o galon i'w deulu, cymdogion a ffrindiau oll am y galwadau, y cardiau a'r ymweliadau a gafodd ar ei ymdeoliad a'i ben-blwydd yn ystod y Nadolig. Llawer o ddiolch i'w ffrindiau gwaith am drefnu p'nawn difyr iawn yng Ngwesty Gwynedd. Diolch yn fawr.

GAIR O DDIOLCH. Dymuna Mattie a John, Tan y Clogwyn, Llanberis ddatgan eu gwerthfawrogiad diffuantaf am y caredigrwydd a dderbyniodd Mattie yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd a Manceinion. Diolch hefyd am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r llu ymweliadau, oll yn datgan dymuniadau da. Diolch yn fawr i bawb.

ARDDANGOSFA. Mae'r arddangosfa o waith y diweddar Neville Foulkes yn parhau yn Oriel y Mynydd Gwefru hyd wythnos olaf mis Chwefror. Cofiwch amdani os na fuoch yno'n barod. CAPEL COCH. Cynhaliwyd gwasanaethau arbennig Noswyl Nadolig ddydd Sul, Rhagfyr 24. Yn oedfa'r bore cafwyd gwasanaeth yng ngofal plant a ieuencid yr Ysgol Sul. Yr oedd y festri yn rhwydd iawn a chafwyd cyflwyniad o stori'r Geni gan y plant iau ar thema Seren Bethlehem.

Roedd cyflwyniad y plant hŷn a'r ieuencid yn cyfeirio at ganslo dathliadau'r Nadolig ym Methlehem oherwydd y brwydro rhwng yr Israeliaid a'r Palestinaid ac yn ein hatgoffa am yr angen am Grist y Cymod. Yn oedfa'r hwyr cafwyd gwasanaeth o ddarlenniadau a charolau oedd yn cael eu cyflwyno gan rai o aelodau'r capel. Diolch i bawb a gymerodd ran ac i athrawon yr Ysgol Sul am baratoi'r deunydd a hyfforddi'r plant erbyn oedfa'r bore. Drannoeth, ar fore'r Nadolig ei hun, cafwyd gwasanaeth y Cymun dan arweiniad gweinidog yr eglwys.

Trefnwyd gweithgareddau gwahanol i'r arfer gan yr Ysgol Sul cyn y Nadolig. Yn hytrach na chael eu parti Nadolig arferol yn y festri

bu'r plant lleiaf yn gweld Siôn Corn yn Chwael Llechwedd, Blaenau Ffestiniog gyda llond bws o blant a rhieni yn mwynhau'r trip, tra'r aeth yr ieuencid i'r Ganolfan Bowlio Deg ac i fwyty McDonald yn Llandudno.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL. Daeth yr eira ddechrau'r flwyddyn newydd a'n gorfodi i ohirio'r cyfarfod cyntaf yng nghwmni'r Parchg Trefor Jones, Caernarfon. Bwriedir aildrefnu'r cyfarfod at y gwanwyn.

Nos Fawrth, Ionawr 9 cynhaliodd aelodau'r Gymdeithas Gyfarfod Gweddi i gyflwyno'r flwyddyn newydd i ofal Duw.

NADOLIG 2000. Nos Sul, Rhagfyr 3 cynhaliwyd Dathliad Nadolig 2000 y pentrefwyr yn Eglwys Sant Padarn. Yr oedd y cyfarfod wedi ei drefnu gan Bwyllgor yr Eisteddfod a gwnaed casgliad er budd y Gymdeithas er Atal Creulondeb i Blant. Cymerwyd rhan gan gynrychiolwyr eglwys ac ysgolion Sul y pentref, ynghyd â phlant o Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail, Lleisiau Lliwedd a Chôr Meibion Dyffryn Peris.

YR EISTEDDFOD. Mae Pwyllgor yr Eisteddfod leol yn awyddus iawn i gael rhagor o aelodau i helpu i drefnu Eisteddfod 2001. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Pwyllgor cysylltwch â'r Ysgrifennydd, Mrs Heather Jones, 7 Coed y Glyn (Ffôn: 872569).

CYDYMDEIMLAD. Daeth y newyddion trist am farwolaeth Haydn Lewis Jones, 55 Maes Padarn, yn syfrdan inni oll fel cymuned. Roedd Haydn yn aelod poblogaidd iawn o'r pentref ac yn uchel ei barch gan bawb a'i adwaenai. Roedd ganddo wên gyfeillgar a sgwrs barod i bawb ac fe'i gwelid yn aml yn ôl ac ymlaen yn y pentref gyda Ryan, ei fab, y meddyliai'r byd ohono.

Hogyn o Lanbêr oedd Haydn ym mhob ystyr wedi ei addysgu yn ysgolion Dolbadarn a Brynrefail ac wedi dychwelyd i fro ei febyd wedi

treulio rhai blynyddoedd gyda'r fyddin – yn cynnwys dwy flynedd o wasanaeth yng Ngogledd Iwerddon. Bu'n aelod ffyddlon o ail dîm pêl-droed Llanbêr yn ogystal â thimau ieuencid y pentref yn ei dro. Dioddefodd ei salwch creulon yn eithriadol o ddewr – ni fyddai byth yn trafod ei gyflwr nac yn cwyno am ddim – yr un wên a'r tynnu coes bob amser. Roedd yn benderfynol na fyddai ei salwch chwaith yn amharu dim ar ei fywyd – doedd dim byd yn ei rwystro a chafodd y gofal gorau posibl gan ei deulu er mwyn cyfleu hyn. Gellir dweud yn ddi-flewyn ar dafod y bydd bwlch mawr yn Llanberis heb Haydn, a chaiff ei golli'n enfawr gan bawb a'i hadwaenai. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Ryan, Beryl, Jim, yr hogiau a'r teulu oll i gyd.

DIOLCH. Dymuna Brenda, Summer Hill ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion ar ei phen-blwydd yn 50 yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna Bethan Wyn Jones, 40 Stryd Goodman ddatgan ei diolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau, galwadau ffôn a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra'n yr ysbyty yn ddiweddar.

DYMUNA Mrs Myfi Thomas, 2 Bryn Teg ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed.

DYMUNA Sharon Griffiths, 2 Bryn Teg ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 21.

DYMUNA Elizabeth Balaclava ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau, arian a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 50 ar Ragfyr 13. Diolch hefyd yn arbennig i'm gŵr ffyddlon a chariadus, Hefin, am y cinio 'surprise' yn Lake View. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Helen ac Edryd Sharp ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar achlysur eu pen-blwydd yn 50 a 21 oed.

DYMUNA Buddug Wakeham,

Glenthorne, Stryd Newton ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd, ymweliadau, cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Helen, Meirion, Muriel a theulu'r ddiweddar Catherine Ellen Thomas, 61 Maes Padarn (Anti Katie) ddatgan eu diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad. Diolch hefyd am yr holl gardiau, llythyrau, y rhoddion, blodau a'r galwadau ffôn.

Carem hefyd ddiolch i'r Parch John Pritchard a'r Parch Huw Gwynfa Roberts am eu gwasanaeth a'u cymorth ac i'r Mri Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am yr holl drefniadau.

Diolch hefyd i Staff Pengwaith a Staff Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd am eu gofal caredig. Casglwyd £234 tuag at Blas Pengwaith er cof amdani.

O'r Ardd

'Morus y Gwynt ac Ifan y Glaw Daflodd fy het i ganol y baw'

meddai'r hen gân, ond nid dyna a wnaeth y ddau i mi, ond gwneud llanast ar fy ngardd. Rhan o do'r tŷ gwydr a tho'r cyntedd lle cadwaf fy mlodau wedi eu malu gan eira yn disgyn o dop y tŷ. Dyna lle'r oedd fy myniawyd y bugail yn agored i'r rhew, ond deuthum â hwy i gynhesrwydd y tŷ ac rwyf wedi eu hachub.

Roedd y gwynt cryf yn gwneud sbort am fy mhen am dorri'r coed. 'Dyna chi wedi colli fy nghysgod', meddai'r hen goed a felltithiais gymaint. Ond mae'r cyfan wedi ei drwsio erbyn hyn. Beth fydd gen i i gwyno amdano eto tybed?

Cawn weld yr eirlisiau i godi ein calonnau, ac rwyf yn gallu mwynhau ffrwythau llynedd o'r rhewgell. Sôn am 'Dolig yn yr haf a chwsberis yn y gaeaf. Dydi'r pethau modern yma yn gwneud ein bywyd yn hawdd? Dyna beth ddylem ei wneud – diolch yn lle cwyno!

Fframia

Gwasanaeth Fframio Lluniau
Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth
Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)



STRYD FAWR LLANBERIS

Manylion pellach am ein holl deithiau:
(01286) 872777

6 Ebrill – Westlife, Manceinion

14–15 Gorffennaf – Robbie Williams, Caerdydd

20–22 Gorffennaf – Robbie Williams, Milton Keynes

16 Tachwedd – sioe Mamma Mia, a siopa Nadolig, Llundain

10 Tachwedd – 2 Rhagfyr – ymweliad 3 wythnos â Patagonia (dim ond lle i 5 ar ôl)

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



Chris Thomas o Glwb Snwcer Deiniolen a enillodd gwpan Clybiau Ieuencid Gwynedd. Enillodd hefyd y gystadeuaeth parau, sef Tarian Lockwell

DIOLCH. Dymuna Nia Morris, Cartref, Rhes Cynfi ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am y llu cardiau, blodau a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ôl llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd cyn y Nadolig. Diolch yn arbennig i Dr Sonia Maxwell, Meddygfa Llanberis am ei chymorth a'i gwaith trylwyr, ac i Dr S. Lesson a staff Ward Ffrancon, Ysbyty Gwynedd. Diolch o galon i bawb. **CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST LLANDINORWIG.** Cynhaliwyd cyfarfod nos Lun,

Ionawr 8 gyda'r Parchedig Gareth Parry yn llywyddu. Estynnwyd croeso i'r gŵr gwadd, Mr Gareth Dafydd o Frynrefail. Bu'n siarad a thrafod yn ddifyr am ei waith fel Swyddog Prawf a rheolwr gweithredol ar Dîm Troseddu Gwynedd a Môn. Diolchwyd iddo gan y llywydd.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Chwefror 5 pan fydd Miss Jean Moeller a Miss Margaret Matthews yn dangos sleidiau o'u gwyliau ym Mauritius.

DYMUNA Ruth Ann Jones, 94 Pentre Helen ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Diolch hefyd am y parti a drefnwyd iddi. Diolch yn fawr.

DYMUNA Miss Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont ddatgan ei diolch i'r teulu, perthnasau, cyfeillion a ffrindiau am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r blodau a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r meddygon a'r nyrsus yn Ward Ogwen ac hefyd i Dr Robin Parry, Llanberis.

DYMUNA Gwilym, Michael, Susan a theulu'r ddiweddar Betty Williams, 9 Victoria Terrace, ddatgan eu diolch i bawb am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad.

Diolch hefyd am yr holl gardiau, llythyrau, y rhoddion a'r galwadau ffôn.

Carem ddiolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth

a'i gymorth. Diolch hefyd i feddygon Deiniolen, Staff Ward Aran a Chlinic Poen Ysbyty Gwynedd, a hefyd Staff Ysbyty Eryri.

Diolchwn hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones, Llanberis am yr holl drefniadau. DYMUNA Eirlys Lloyd Jones, 5 Ffordd Deiniol ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a'r gofal a gafodd tra yn yr Ysbyty. Diolch eto. DYMUNA Mrs J. Jones, 24

Rhydfadog ddiolch o galon am yr holl gardiau a blodau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau lu, ac am yr holl garedigrwydd, o bell ac agos, a ddangoswyd iddi tra yn cael triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r staff a'r meddygon yn Ward Ffrancon. Diolch o galon i bawb.

DYMUNA Anti Lynda, Anti Siân a Phwyllgor yr Ysgol Feithrin ddiolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi'r ysgol yn ystod y flwyddyn 2000. Dymunwn Flwyddyn Newydd Dda i bawb.



Dyma lun o'r Parch J. Gareth Parry yn cyflwyno gwobr i Sophia Williams, 1 Rhes Faenol, Deiniolen, sydd yn aelod ffyddlon o Ysgol Sul Eglwys Crist Llandinorwig. Daeth Sophia i'r brig mewn cystadleuaeth a osodwyd gan Bwyllgor Plant Esgobaeth Bangor i Ysgolion Sul a Chlybiau Cristnogol. Y dasg oedd llunio logo a theitl ar gyfer cylchlythyr chwarterol fydd yn dod allan ar gyfer plant yr Esgobaeth. Gobeithir cyhoeddi y rhifyn cyntaf yn Chwefror. Llongyfarchiadau calonnog iddi.



Band Deiniolen a wisgodd eu lifrau newydd am y tro cyntaf mewn cyngerdd diweddar yn Mynydd Gwefru, Llanberis.

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Wavell Roberts

CIGYDD

London House

LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU

DEWCH ATOM NI!

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££ ichwi
ac yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



H. E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Antur Waunfawr 'Rhyw Ddydd'

Lansiwyd llyfr arbennig iawn i gyflwyno Antur Waunfawr yr wythnos yma. Llyfr sy'n cynnig gobaith newydd i gymdeithas ar ddechrau'r mileniwm.

Llyfr o safon ydi 'Rhyw Ddydd' yn cynnwys cyfraniadau gan groesdoriad amrywiol o ffrindiau'r Antur o bob cwr o'r byd. Yn plethu drwy'r llyfr mae cyfres o bortreadau y ffotograffydd adnabyddus, Keith Morris, Aberystwyth.

Cyfres lluniau Keith, 'Wynebau Waunfawr', oedd egin y syniad i greu llyfr newydd, a bu'r Antur yn ffodus iawn fod yr awdures Angharad Tomos, wedi cytuno i olygu'r gyfrol. Gyda chyfraniadau graenus ac amrywiol, a sgiliau arbennig Angharad llwyddwyd i gynhyrchu llyfr fyddai'n anrheg gwerth chweil i'w gynnwys mewn unrhyw hosan Nadolig eleni am £4.50 (ar gael gan Antur Waunfawr, 01286 650721).

Daeth cyfraniadau i law gan oddeutu 70 o bobl, yn cynnwys gweithwyr a staff yr Antur, yn ogystal â nifer o bobl mwy adnabyddus â chysylltiad â'r Antur, er enghraifft, Dafydd Iwan, Gerallt Pennant, Dafydd Wigley, Elinor Bennett a Dylan Iorwerth. Hefyd gwelir geiriau gan rai a fu'n gyfrifol am sicrhau cychwyn y fenter, ym 1984, fel David Evans a Martin Weinburgh.

Mae'r Antur yn ddiolchgar iawn i Fwrdd Elusennau'r Loteri Genedlaethol am gymorth gyda ariannu'r gyfrol.

cofiwch dorri'r calendr allan a'i gadw mewn lle amlwg

antur WAUNFAWR

Calendr Gweithgareddau 2001

Taith Gerdded Clwb Mynydd
taith i'r teulu yng nghyffiniau Waunfawr

19 Mai, yn cychwyn o'r Antur am 10.00
ffoniwch am fanylion

Gwyl Fai
gwyl amgylcheddol a chymunedol

7fed Mai, 2.00 y pŵn

Gerddi'r Antur diwrnod arbennig
Cynllun Gerddi Cenedlaethol

30 Mehefin, 10.30 - 3.00

**Noson straeon Michael Harvey a
Dovie Thomason**
straeon Brodorion America a'r Celtiaid

13 Gorffennaf, 7.00 yr hwyr

Gweithgareddau Gwyliau i blant
3 diwrnod yn ystod gwyliau'r haf

cysylltwch â Dafydd Arfon Jones
Swyddog Addysg am ragor o
fanylion.

Dydd Owain Glyndwr
Ciniawa a Dathliad

15 Medi, 7.00 yr hwyr

Ras yr Antur
Ras 10k a ras hwyl

22 Medi, 2.00 y pŵn

Gwyl y Gwyl
Sêr. 'slumod a mwy

28 Medi, 7.00 yr hwyr

Miri Siôn Corn

30 Tachwedd, 6.30 yr hwyr

Ffoniwch am fanylion am unrhyw un o'r gweithgareddau uchod.

☎ 01286 650 721
www.anturwaunfawr.org

ANTUR

WAUNFAWR


**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob math
ar gael -

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

CO-OP LLANRUG

- * Bydd y siop yn agor tan 7 pm
bob Nos FAWRTH a Nos IAU
- * Mae defnyddiau garddio - grobags,
gwrtai etc mewn stoc.

**bwyd a nwyddau o safon
holl anghenion y tŷ yn lleol**

Ffordd yr Orsaf, Llanrug (01286) 672937



SLIM CHWIM MEWN DIM!
heb lwgu na chwysu
Cael gwared o'r bloneg a'r bol
Yn llesol naturiol, di-lol
CREDWCH! HOLWCH!
Ffoniwch: (01286) 830609
-TENEUWCH-
SLIM CHWIM MEWN DIM!

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

ANRHYDEDD. Yn rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd, llawenydd i bawb ohonom oedd gweld enw Mr Dafydd G. Ellis, Gweledfa ymhlith y rai a dderbyniodd yr M.B.E. Daeth yr anrhydedd hon iddo drwy iddo gael ei enwebu gan y Gwasanaeth Prawf ar sail ymroddiad i'w swydd ac, yn arbennig, am y gwaith gwirfoddol cysylltiedig â'r swydd honno. Bu ganddo gonsyrn gwirioneddol dros y blynyddoedd dros droseddwy'r a oedd hefyd gydag anawsterau dysgu, a chyfrannodd yn helaeth i Gynllun Cynnal Dioddefwyr Môn ac Arfon. Yn ddiweddarach bu ei brofiad yn amheuthun mewn cysylltiad cyffelyb pan sefydlwyd Menter Fachwen ac, ers pum mlynedd, ef yw Cadeirydd y sefydliad hwnnw.

Mae Dafydd yn gyflogedig gyda'r Gwasanaeth Prawf ers wyth mlynedd ar hugain. Yn frodor o Ddolwyddelan, daeth atom i Frynrefail chwe blynedd ar hugain yn ôl gyda'i briod Moira, a Richard a Sally, a chartrefu yng Ngweledfa. Yn ystod y cyfnod yma, bu'n hynod o weithgar gydag amrywiol weithgareddau yn y pentref, yn gymwynaswr ac aelod ffyddlon o'r Eglwys Bresbyteriaidd ac yn aelod brwdfrydig o Gôr Meibion Dyffryn Nantlle. Fe'i hystyrir ef a Moira yn ein plith fel personau hynod artistig a chreffus, eu cartref a'r ardd yn dyst o ddyfeisgarwch a phrydferthwch.

Llongyfarchiadau calonog iawn i un sy'n gwir haeddu'r anrhydedd. **PEN-BLWYDD ARBENNIG.** Estynnwn longyfarchiadau i Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc ar ddathlu ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed ar Ionawr 3. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Carai ddiolch i'w deulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur. **PROFEDIGAETH.**

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mr Maurice Jones, Meillionen yn ei brofedigaeth o golli ei chwaer, Mrs Jane Mair Pritchard, Dinas, Llanwnda a fu farw ar Ionawr 7 yn 86 mlwydd oed. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Mawr, Porthaethwy ar Ionawr 11.

I'R YSBYTY. Mae Mr Wilbert Williams, Marino wedi bod am gyfnod yn Ysbyty Glan Clwyd dan archwiliad meddygol. Anfonwn ein cofion ato a'n dymuniadau gorau am adferiad buan.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD.

Cynhaliwyd gwasanaeth i ddathlu'r Nadolig brynhawn Sul, Rhagfyr 17. Roedd cynulleidfada wedi ymgynnull a chafwyd cyfarfod bendithiol. Trefnwyd yr oedfa gan lywydd y mis, Mrs Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog.

Cyflwynwyd addasiad o chwedl Babushka gan Caryl ac Awen Jones, Na Nog a Rhian ac Anna George, Sŵn yr Engan, yn cael eu cynorthwyo gan Amy Lambert, Mair Wyn Davies a Lowri Roberts Williams. Yn dilyn, anrhegwyd y plant gan Mrs Jennie A. Roberts.

Cymerwyd rhan ymhellach gan Mr Richard Wyn Evans a Mr Maurice Jones. Cafwyd cyfraniadau llafar gan Mr Norman Williams, Mrs Verna Jones, Mr Gwyn Hefin Jones a Mrs Ifanwy Jones. Cyflwynwyd unawd gan Mr Robert John Williams a therfynwyd yr oedfa gyda chyfraniad gan Mr Emyr Williams. Yn dilyn mwynhaodd pawb luniaeth dymhorol wedi ei baratoi gan y chwirydd. Cafwyd gair diffuant o ddiolch am yr oedfa arbennig gan Miss Alice Williams.

Eleni cyflwynodd Dosbarth Ysgol Sul yr Oedolion eu casgliad blynyddol, y swm o £72 i Fenter Fachwen.

Trefn y Gwasanaethau am Chwefror 2001:

- 4 Parch John Owen, Bethesda am 5.30. Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.
- 11 Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 5.30.
- 18 Parch H. Gwynfa Roberts, Llanwnda am 5.30.
- 25 Mr Alun Rowlands, Bangor am 10 y bore.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

DECHRAU BLWYDDYN. Ar ddechrau blwyddyn newydd arall ga' i ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb, a blwyddyn newydd well i'r rhai a gafodd brofedigaethau yn ystod 2000. Boed i bawb yn ystod y flwyddyn newydd gael pob bendith ac iechyd.

LLONGYFARCHIADAU gwresog a phob bendith i Mrs Sally Brenan, Afallon ar ddathlu ei phen-blwydd yn bedwar ugain ychydig ddyddiau cyn y Nadolig. Dymunwn iddi iechyd i'r blynyddoedd a ddêl.

Y TYWYDD. O do, fe ddaeth yr eira yn annisgwyl iawn ar ôl y Nadolig. Roedd yn olygfa fendigedig i edrych ar y mynyddoedd drwy'r ffenest, ac yn odidog pan ddaeth yr haul i sgleinio arnynt. Ond mae'n edrych yn llawer gwell ar gerdyn Nadolig. Ni welwyd na bws na phost yma am rai dyddiau, ac ar y diwrnod cyntaf ni fu graeanu o gwbl. Yr oedd yn rhaid rhoi blaenoriaeth i'r priffyrdd, a chofiodd llawer ohonom fod gennym draed. Gwelwyd mwy o gerdded ar y ffordd a mwy o siarad, a neb yn poeni am amser a'r plant wrth eu bodd hefo'u dynion eira a'u slediau. Carchar ydi eira, ond tra pery mae'n ein closio at ein gilydd. Rhaid talu diolch i Mr Llew Jones, 4 Bro Elidir, Mr Dylan Lewis 3 Bro Elidir a Mr Colin Humphreys, Gwêl y Wyddfa am lanhau'r eira ar yr Allt ac o Stryd Bro Elidir i'r ffordd fawr; a diolch i adran y priffyrdd am raeau ddwy waith bob dydd ar ôl y diwrnod cyntaf, ac y maent yn dal i wneud. Diolch yn fawr iawn i chwi.

DIOLCH. Dymuna Mrs Sally Brenan, Afallon ddiolch i'w

ffrindiau a chymdogion yn Ninorwig am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn bedwar ugain. Yr oedd hi a John, ei gŵr a Roslynn y ferch, dan deimlad dwys o dderbyn yr holl garedigrwydd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

MALURIO. Rai misoedd yn ôl bellach, bu imi ddiolch i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu rhodd o set i'r ardal i gofio am y milflwyddiant. Cafodd pob pentref yn y gymuned un. Ond y gresyn mawr yw fod yr un a osodwyd ar yr Allt Ddu wedi cael ei malurio. Mae yn anodd credu fod neb yn gallu gwneud y fath beth. Tybed a fuasai yn well symud y sêl i le mwy poblogaidd, lle y gallwn gadw llygaid arni!

Y GANOLFAN. Cafwyd pwyllgor o Swyddogion y Ganolfan hefo Mr Lunt Williams yn y Ganolfan nos Iau, 18 Ionawr. Yn anffodus nid oedd y Cyngorydd yn bresennol. Dywedodd Mr Williams fod yr hyn a ddywedodd mewn cyfarfod cyhoeddus rai misoedd yn ôl yn dal i sefyll. Dywedodd y buasai wrth ei fodd yn cael gwario mwy ar yr adeilad ond nad oedd yr arian ar gael.

Mae yn rhaid gwneud yn berffaith blaen mai y Ganolfan yn unig sydd yn perthyn i'r Pwyllgor Addysg ac mai eiddo y Cyngor yw y maes chwarae. Does dim modd i blant fynd i chwarae i'r maes gan fod y tanc nwy yno. Mae yn costio tua pedair mil y flwyddyn i'r Pwyllgor Addysg gynnal y Ganolfan ac yr wyf yn credu ein bod yn lwcus iawn yn ei chael. Buasai llawer i bentref yn falch ohoni.

G. EVANS



**ARBENIGWYR TRWSIO
CYRFF CEIR**

Uned 4, Stad Ddiwydiannol Brynafon, Llanrug

(01286) 678030

EMYR JONES

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**




Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

**CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref**

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



**ORIEL
CWM**
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CYMDEITHAS CAE CHWARAE. Pentymor y Gymdeithas yw cyfnod y Nadolig. Diolch i haelioni cefnogwyr y Tynfa Misol, bu modd i'r Pwyllgor drefnu nifer o ddigwyddiadau dros yr Wyl. Mae llawer o'r cyfeillion yn y pentrefi cyfagos yn genfigenus o'n Coeden Nadolig oleuedig. Unwaith eto, roedd posib trefnu ymweliad y plant iau i weld Siôn Corn yn ei ogof ym Mhontrug, cyn iddynt fwynhau selsig a sgloodion yn Nhafarn Bryngwna. Roedd rhaid i'r plant hyn setlo am rodd! Ar ben arall y sbectrw m oed mae'n braf medru cynnig ychydig o gymorth ychwanegol i bensynwyr y cylch. - rhai sy'n fodlon cyfrannu hefyd trwy'r flwyddyn. Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb sy'n cefnogi'r Tynfa Misol am eu cefnogaeth trwy'r flwyddyn. Wrth gwrs, gall unrhyw un o drigolion cylch Caeathro ymuno â'r Tynfa a chyfrannu (ac ennill gwobr fisol!) ar unrhyw adeg.

MARWOLAETH. Wythnos gyntaf mis Ionawr 2001 oedd wythnos olaf Gwilym Griffiths, Llys Menai, Bryn y Gof, Caeathro. Roedd yn 84 mlwydd oed.

Roedd 'Gwil' yn un o feibion Cwm-y-glo. Chwarelwr wrth ei grefft a'i alwedigaeth, yn gymeriad o fri, ac yn uchel iawn ei barch ymysg cymdeithas chwarelwyr Arfon, a'i gyfoedion. Yn bur hoff o rannu chwedl a hanes lleol gyda'i gyfeillion ac ymbleserau mewn barddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg. Roedd yn hyddysg mewn diwylliant a thraddodiad Cymreig, a chanddo'r ddawn i hudo ei gynulleidfa gyda'i fraethineb a'i dddiddanwch brwd.

'Roedd yn ddiymhongar am ei ddewrder a'i gamp yn gwasanaethu yn y fyddin yn ystod yr Ail Ryfel Byd ar lannau Dunkirk yn Ffrainc, o'r lle y bu iddo ddychwelyd yn ei deyrngarwch a'i swyddogaeth fel Cadeirydd Cymdeithas Hynafgwyr Dunkirk, Caernarfon a'r Cylch.

Roedd ganddo gyfoeth o brofiad bywyd i rannu gyda chenchedlaeth hen ac ifanc a bu erioed yn angerddol am fywyd a chanddo ysbryd diflino. Ymfalchiodd yn ei deulu, a oedd

yn annwyl iawn ganddo, a balch oedd o gyrraedd y garreg filltir o fynd heibio ei bedwar ugain oed i fwynhau eu cwmni yn ei hwyrddyd.

Mawr fydd y bwch ar ei ôl, oesoedd y tawelwch, a dwfn yr hiraeth byth.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Ionawr oedd 1. £40 (7): Margaret Hensworth, Barn Cottage; 2. £25 (100): Willy Anderson, Bryn Gwna; 3. £15 (3): Gwenno Bebb, Bryn Mair; 4. £5 (15): Idris Owen, Mur Matthew.

CYNGOR CYMUNED. Penodwyd Sian Thomas, Tŷ Ysgoldy, Waunfawr fydd y Clerc newydd o Chwefror 1, 2001. Bydd Dewi Jones yn darfod fel Clerc ar 28 Chwefror. Bu Caeathro yn ffodus iawn yn cael y Clerc yn trigo hefo ni am gyfnod ei glercyddiaeth.

Mae'r Arolwg Bro, trwy'r holiadur a ddosbarthwyd flwyddyn neu ddwy yn ôl wedi'i ddadansoddi a bydd ar gael i'r Cyngor cyn bo hir.

Nid oedd unrhyw atebion oddi wrth Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r gwasanaeth bws.

Mae'r Cyngor yn dal yn awyddus i glywed oddi wrth Ymddiriedolwyr Capel Caeathro ynglŷn â'r defnydd o'r arian a glustnodwyd ar gyfer addasiadau cymunedol i'r adeilad.

Mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu addasu 2 uned gwyliau i 2 uned preswyl ym Mhlas Treflan. Dylai unrhyw fudiad lleol sy'n awyddus i dderbyn cefnogaeth ariannol gysylltu â'r Clerc cyn diwedd mis Chwefror.

PENCAMPWR Y GOGLEDD. Llongyfarchiadau i Tom Evison, Cae Hopcyn am gael ei ddewis fel Pencampwr Ifanc y Flwyddyn dros Ogledd Cymru i gyd.

GWASANAETHAU'R CAPEL. Ysgol Sul pob dydd Sul am 11.00. Croeso i blant y cylch i gyd.

**PEIDIWCH
A GORI
AR STORI
anfonwch hi i
Eco'r Wyddfa**



**Danfon 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro**

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

**RACCA
PENISARWAUN**

Blodau ar gyfer pob achlysur

Hamperi o lysiau a
ffrwythau ffres

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Reenee Mullane, Cae Gwyn a Rob ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob lwc ichi at y dyfodol.

ENILLWYR. Daeth gwobrau arbennig i ddau o drigolion y pentref yn ddiweddar. Enillodd Mrs Jeni M. Williams, Pennant, Nant Ffynnon gwyno-ddisg mewn cystadleuaeth ym mhapur newydd Y Cymro adeg y Nadolig. Ond daeth gwobr dipyn mwy i Alwyn Searell Jones, Dwyfor, gan iddo ennill 'Quad Bike' mewn raffl a drefnwyd gan bapur newydd y Farmers Guardian yn Sioe Smithfield yn Llundain! Cyrhaeddodd y beic yn ddiogel yn union wedi i Alwyn gael gwybod ei fod wedi ennill. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch. Disgwyl dy weld yn hel defaid ar y mynyddoedd rwan, Alwyn!



Alwyn Searell Jones a'r beic
modur newydd.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob
math o logi preifat - nosweithiau
allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau
rhesymol gan

(01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

PRYD I BAWB

**Bwffe blasus o safon
at bob achlysur**

CINIO BUSNES

BEDYDD

PEN-BLWYDD

TE ANGLADDAU

**CERID MACKINNON
(01286) 673190**




**Gwesty
Dolbadarn**

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

CROESAIR CHWEFROR



Cysylltir pethau byw efo'r cliwiau rhifol - gan obeithio fod fy syms i'n iawn!

AR DRAWS

1. 365 - 20 (4)
3. 205 - 235 (3)
5. 51 - 79 (8)
11. Trosglwyddo gwres (8)
12. Adar y môr (8)
14. Gorchudd annymunol? (3)
15. Lle nad yw'n llydan (5)
16. Un sy'n rhoi hadau yn y ddaear (7)
17. Ymbil (7)
20. Brawd gwyh Abel (4)
21. Defnydd tân (4)
23. Rhai sy'n addasu neu'n ceryddu (8)
24. 297 - 326 (8)
28. Tarddu - adeiladu - chwyddo... (4)
29. Aderyn baner yr Aifft (4)
30. Hen iawn (7)
32. 80 - 110 (7)
34. Gorchwyl beryglus y truan meddw (5)
36. H:0 (3)
37. Dyfais i ddangos ysbaidd o amser drwy ddefnyddio tywod (8)
39. Llund llestr o de (8)
41. Nodi yn ôl safon (8)
42. Ennaint y gŵr y credai Samuel oedd yn galw arno? (3)
43. 111 - 141 (4)

I LAWR

1. 'Dewch Gymry hen ac ifanc, dewch i'r ---' [Dafydd Iwan] (3)
2. Gwenwyn mewn cyfrifiadur (5)
4. Yr -----, gwlad yn Ewrop (5)
6. Dyheu yn y Sulgwyn (3)
7. Ffyrch (6)
8. Coed pigog (5)
9. Trawst y to (7)
10. Un sy'n gwneud 'sgidiau â gwadnau pren (8)
13. Gofalu yn y de! (5)
14. 173 - 204 (5)

16. Y sach sy'n dal llwch blodeuyn (7)
18. Twffyn o flew wrth gefn carn ceffyl (5)
19. Mynwes (7)
22. Metel a ddefnyddir wrth siopa? (5)
25. Ymarfer, o flaen cymanfa? (8)
26. Un sy'n cefnogi'n ariannol, neu'n rhoi lloches (5)
27. Y Llestr Sanctaidd (5)
28. Yr Iaith (7)
31. Cyfnewidiadau amserau? (6)
33. Crwydro ar herw (5)
35. Llonydd, distaw (5)
36. Chwarae ar lwyfan (5)
38. Gwryw a genhedlodd (3)
40. Mab-yng-nghyfraith o Lydaw? (3)

Gan nad oedd dyddiad derbyn wedi ei osod yn yr Eco i groesair Rhagfyr, bûm yn derbyn atebion dros gyfnod o ddau fis - gobeithio nad aeth rhai ar goll ymysg y cardiau Nadolig! Ta waeth, blwyddyn newydd dda i chi i gyd, a diolch am y cyfarchion tymhorol a dderbyniais gan nifer ohonoch.

Derbyniais atebion gan Nant Roberts, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; E.E. Roberts, Tregarth; Olwen Jones, Bethel; Nan Owen, Llanberis; Gwen Davies, Neston; Moreen Lennon, Llanberis; Eirian Roberts, Llanrug; Olwen Owen, Llanberis; Elfed Evans, Llanllechid; D.A. Pritchard-Jones, Abererch; Nansi Davies, Rhuthun; M. Evans, Caernarfon; N. Hughes, Cwm-y-glo; Eluned Jones, Trefor; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Jennie

CALENDR MIS CHWEFROR

4. Sul: **CWM-Y-GLO**: Clwb y Plant am 2 o'r gloch. Cymundeb am 4. o'r gloch.
5. Llun: **DEINIOLEN**: Cymdeithas Llandinorwig - Sgwrs a sleidiau gan Miss Moeller a Miss Mathews.
6. Maw: **LLANBERIS**. Y Gymdeithas Undebol. Cwis ysgafn gan Mr Arwel Jones.
10. Sad **LLANRUG**: Bore Coffi yn Hafan Elan.
WAUNFAWR: 'Ffynnon Gwerin' 7.30 - 9.30 o'r gloch. yn Antur Waunfawr gyda Carreg Lafar.
12. Llun **DEINIOLEN**: Y Cyngor Eglwysi.
14. Mer **LLANRUG**. Plaid Cymru. Sgwrs gan Mr Huw Jones, Llanwnda.
BETHEL: Merched y Wawr. Cyfarfod yn yr Archifdy yng Nghaernarfon.
19. Llun **DEINIOLEN**: Merched y Wawr gydag Eirian Roberts o gwmni Clinique.
26. Llun **DEINIOLEN**: Y Gymdeithas Lenyddol gyda Mr Len Porter, Penisarwaun.

RHAGHYSBYSIAD

Mawrth

1. Iau **LLANRUG**: Plaid Cymru. Cinio Gŵyl Ddewi yn y Bistro yn Llanberis.

RHODDION

Rhifyn Ionawr £10:

Mr Maldwyn P. Roberts, Pen-y-groes, er cof am ei fam Mrs Betty Roberts (Dakota, Llanberis gynt).
£5: Mrs Mattie Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis; Y Cyngorydd Trefor Edwards, Llanberis; Mrs Jeni M. Williams, Pennant, Nant Peris.

Rhifyn Chwefror

£10: Teulu'r ddiweddar Catherine Ellen Thomas, 61 Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs John H. Hughes, Tan y Clogwyn, Llanberis; Mrs L.E. Owen, Llys Myfyr, Llanrug.

£5: Mrs Buddug Wakeham, Stryd Newton, Llanberis; Brenda, Summer Hill, Llanberis; Mrs Myfi Thomas, 5 Bryn Teg,

Llanberis; Helen ac Edryd Sharp, 28 Maes Padarn, Llanberis; Goronwy Lewis, Stryd Ceunant, Llanberis; Bethan Wyn Jones, 40 Stryd Goodman, Llanberis; Mrs Annie Hughes, Cae Hywel Isaf, Penisarwaun; Mrs J. Jones, 24 Rhydfadog, Deiniolen; Mrs Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont; Teulu y ddiweddar Mrs Betty Williams, 9 Rhes Victoria, Deiniolen; Eirlys Lloyd Jones, 5 Ffordd Deiniol, Deiniolen; Mr Gwilym Hughes, Bryn Parc, Brynreafil.

£4: Mrs B. Jones, Lyndale, Llanrug.


£3: Nia Morris, Cartref, Rhes Cynfi, Deiniolen.

£2: Mrs Ruth Jones, 94 Pentre Helen, Deiniolen.

Williams, Clynnog; E.W. Pritchard, Garndolbenmaen; Mable Parry, Porthmadog ac enillydd cynta'r flwyddyn, sef I. Jones, Ael y Mynydd, Borth y Gest, Porthmadog.

Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau'r croesair anfonwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn Chwefror 19.



E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

CHWARAEON

Dechrau Gyrfa

Bu'r colofnau hyn yn dilyn llwyddiannau anhygoel Eifion Williams yn y pwll n ofio ers sawl blwyddyn bellach. Daeth gwobr i nofiwr ieuanc arall o Lanrug yn ddiweddar – gwobr efallai fydd yn sbardun i gychwyn gyrfa llwyddiannus arall.

Disgybl 9 oed yn Ysgol Gynradd Llanrug yw Alex Lyles. Bu'r pengoch yn aelod o Glwb Nofio Caernarfon ers pan oedd yn bum mlwydd oed. Mae sawl nofiwr o'r cyffiniau yma yn elwa o drefniadaeth ac arbenigedd y clwb nofio llwyddiannus hwn. Mae cydbwysedd iach yma rhwng yr ymarfer a'r hyfforddi angenrheidiol, â'r elfen gystadleuol a ddaw o'r sawl gala nofio a drefnir. Strôc arbenigol Alex yw un o'r caletaf, sef dull y pili pala. Mae'r strôc hon yn galw am goesau cry, heb sôn am gryfder yng nghyhyrau yr ysgwyddau – peth anodd mewn corff sydd yn dal i ddatblygu. Fel sawl nofiwr, bydd Alex yn ymarfer dair gwaith yr

wythnos: dwy waith gyda Darren ei hyfforddwr yn y clwb ac un noson ym mhwl Plas Menai. Daeth tlws arbennig i Alex yn ddiweddar i goroni blwyddyn o ymdrechu caled. Dyfarnwyd y wobwr o Nofiwyr y Flwyddyn yn adran iau Clwb Nofio Caernarfon iddo. Mae'n cyfaddef y bydd ennill y wobwr yma'n rhoddi tipyn o hyder iddo i wella ymhellach.

Fel Eifion, mae Alex yn hoffi pêl-droed hefyd. Yn gefnogwr tîm pêl-droed Lerpwl, mae'n chwarae ganol cae i dîm -11 Llanrug. Ei hoff chwaraewr yw Jamie Redknapp sydd, yn anffodus, wedi ei anafu ers cryn amser.

Aeth Mari Deiniol, hefyd o Ysgol Gynradd Llanrug i Abertawe yn ddiweddar i nofio'r ras 50m dull rhydd yng Ngala Genedlaethol yr Urdd. Roedd Mari yn cynrychioli tîm Eryri.

Chwaraeon Ysgol Brynrefail

Gyda chyn gymaint o gampau yn ffurfio cwricwlwm addysg gorfforol erbyn hyn, bu'r misoedd olaf yn hunllef ym myd y cystadlaethau. Ym myd pêl-droed mae nifer o gwpanau cenedlaethol ac, o'r herwydd, rhaid cyflawni'r gemau o fewn amserlen benodol. Yn y dilyw diweddar, mater o chwarae yn y cawodydd fu hi, ac nid rhyngddyn nhw.

Yn y cwpan i'r adran hyn, taith i Fôn i wynebu Amlwch oedd ffawd yr ysgol wedi trechu Ysgol Dyffryn Ogwen yn y rownd gyntaf. Ar ddiwrnod ofnadwy o wynt a glaw, cyfartal iawn fu hi rhwng y ddau dîm tan y funud olaf pan rwydodd y Monwsion y gôl dyngedfennol. Doedd dim brwydro'n ôl, felly allan o'r cwpan am flwyddyn arall.

Mae'n wahanol ar y lefel dan 16. Mae'r tîm yma wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol adran Gwynedd (Eryri) o Gwpan Cymru. Byddant yn cyfarfod enillwyr y gêm rhwng Tryfan a Dyffryn Nantlle i weld pwy fydd yn cyfarfod Ysgol John Bright, Llandudno yn y rownd derfynol. Diddorol sylwi fel y mae'r ysgolion 'bach' wedi dod i'r brig eleni. Dylid nodi hefyd bod mwy o ysgolion yn cysgtdadu yn adran Eryri na sawl un o 'ardaloedd' eraill Cymru. Mae'n dipyn o gamp dod yn bencampwr Eryri.

Dylanwad Tramor

Daeth Graham Henry i gymryd y llyw ar long simsan rygbi Cymru ac, yn sydyn, bu newid syfrdanol. Dechreuodd ddylanwadu ar hyfforddwyr, clybiau, chwaraewyr a 'hen reched' bois y bathodynau a'r tripiaw rhad, sef Pwyllgor Undeb Rygbi Cymru.

Daeth Sam Hamman at awenau Parc Ninian yng Nghaerdydd. Yn sydyn mae tipyn o lwyddiant ac mae ganddo gynlluniau sut y gellir gwella Cynghrair Cymru, profi mwy o bêl-

droed Ewropeaidd a gwella statws y cynghrair. Yn sydyn, mae yna drafodaeth ar rygbi a phêl-droed ar lefel genedlaethol, yn hytrach na'r lefel blwyfol sy' wedi amlygu chwaraeon Cymru yn y blynyddoedd diwethaf.

Pam rydym fel Cymry yn fwy parod i 'wrandu' ar 'dramorwyr' a dilorni yn aml ymdrechion cyd-wladwyr pan awgrymir unrhyw syniadaeth radical? Rhywbeth am 'broffwyd yn ei wlad ei hun' efallai!

Ar Ben Arall y Lein



Dewi a'i wobwr

Wel dyma ni ychydig dros fis cyn gweld dechrau tymor arall. Ble mae'r amser wedi mynd ers diwedd Hydref y llynedd. Digon gwir fod amser yn mynd yn gyflymach fel mae rhywun yn mynd yn hyn.

Beth yw'r rhagolygon am eleni. Mae prysurdeb mawr wedi bod dros fisoedd y gaeaf yn paratoi Cynllun Datblygu Pysgodfeydd Gwynedd ar gyfer cyflwyno cais i gronfa Amcan Un. Mae'r hyn sydd wedi ei ddarparu'n golygu y bydd yn bosib cario 'mlaen â'r gwaith o wella ein pysgodfeydd oddi fewn amserlen byr iawn. Heb arian wrth gwrs, buasai'r gwaith yma yn cymryd oes i'w gwblhau. Yn y byd yma, nid oes sicrwydd o ddim. Rhaid disgwyl i weld a fydd y panel cymeradwyo yn y Cynulliad yn gweld ei ffordd yn glir i gefnogi ein cynlluniau. Mae un peth yn saff, ni all neb ddweud nad ydym wedi rhoi cynnig teilwng ar ddod ag arian i'r fro.

Beth yw'r cynllun, medda chi? Mae tair rhan; y gyntaf a'r bwysicaf yw adnewyddu cynefinoedd yr afonydd fel y bydd y pysgod bach yn cael cysgod a mwy o bryfetach i'w bwyta. Mae cynlluniau fel hyn yn codi cynhyrhaeth ein nentydd gymaint â 80%.

Os am weld peth o'r gwaith yma mae'r Afon Afr a'r Peris o gefn Tafarn y Faenol, Nant Peris hyd at y twnel yn barod wedi ei gwblhau yn yr wythnosau diwethaf. Rhaid diolch i Asiantaeth yr Amgylchedd am ariannu'r gwaith. Mae'n rhaid i Gyngor Cymuned Llanberis weithredu ar frys, neu mi fydd y llwybr cyhoeddus ger Pont Meibion wedi ei olchi i ffwrdd.

Yr ail ran yw gwella'r adnoddau, fel arwyddion, creu mannau aros i bysgotwyr, llwybrau a llecynnau parcio. Hefyd creu arwyddion ar y mynedfaoedd i'r dyfroedd.

Y trydydd rhan yw mwy o hysbysebu beth sydd ar gael yn y fro. Yn ogystal, bydd datblygu pellach ar ein safle gwefan yn galluogi rhai i archebu eu 'sgota a llety' drwy ddefnyddio eu cyfrifiaduron.

Tra'n sôn am hyn, a ydych

wedi cael sbec ar ein gwefan, sef www.hgt.gwynedd.gov.uk/sg

Mae'n safle ar y we wedi cael ei dynodi y safle orau sy'n ymwneud â physgota. Nid yn unig sgota sydd arno, ond llawer o adnoddau eraill yr ardal. Rhaid diolch i Dewi Jones o Fethel am ddylunio a rhedeg y safle ar ein rhan drwy Hyfforddiant Gwynedd, Cibyn, Caernarfon.

Yn flynyddol mae'r gymdeithas yn cyflwyno Tlws Tommi Lovell i'r aelod sydd wedi cyfrannu mwyaf i weithgareddau'r clwb yn ystod y flwyddyn. Mae'n sicr eich bod wedi dyfalu mai'r derbynydd am 2000, yn haeddiannol iawn hefyd, wrth gwrs yw Dewi. Yn y llun gwelir y tlws yn cael ei gyflwyno iddo gan ein Cadeirydd, Mr Maurice Jones, Cwm-y-glo. Dalier ati, Dewi, mae dy waith yn arbennig.

Heblaw am Gronfa Amcan Un mae nifer o ffynonellau eraill yn agored yn y sir. Mae ceisiadau eraill i gyflenwi ein cynllun Amcan Un yn disgwyl penderfyniad. Gobeithio y bydd yn bosib rhoi mwy o wybodaeth am y rhain y mis nesaf.

Mae'n siŵr fod rhai darllenwyr wedi syrffedu arnaf yn pregethu am natur aneffeithiol y llwybr pysgod yn Nant Peris. Ar ôl ugain mlynedd mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwrandao ac, am gyfnod o dair wythnos rhwng Tachwedd a Rhagfyr fe recordiwyd beth oedd yn digwydd yno. Tystiolaeth yw popeth medda' nhw. Dyma'r dystiolaeth!

Fe recordiwyd oddeutu 150 o symudiadau eog, ond un yn unig a fu'n llwyddiannus i nofio dros y llwybr. Fel buasa bargyfreithiwr yn ddweud wrth gau ei erlyniad: 'I rest my case.' Rydym i gyd yn gwir obeithio y bydd gwaith i ddadwneud y broblem ddifrifol yma wedi ei gwblhau cyn diwedd y tymor eleni.

Rhaid rhoi t erfyn arni am y tro, neu mi fydd pawb yn gwybod cyn gymaint â fi am be sy'n mynd ymlaen. Wel, bron iawn, ynté!

H.P. Hughes